



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi:
06/03/2026

Opsiynau am ddyfodol datganoli treth incwm yng Nghymru

Opsiynau am ddyfodol datganoli treth incwm yng Nghymru: Adroddiad annibynnol gan Sefydliad Fraser of Allander ym Mhrifysgol Strathclyde a Phrifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru

João Sousa; Edward Thomas Jones; Rhys ap Gwilym; a Ciara Crummey

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

Adran: Trysorlys Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: StrategaethTrethi.CysylltiadauRhynglywodraethol@llyw.cymru

Opsiynau am ddyfodol datganoli treth incwm yng Nghymru

Adroddiad annibynnol gan Sefydliad Fraser of
Allander ym Mhrifysgol Strathclyde a Phrifysgol
Bangor ar ran Llywodraeth Cymru

João Sousa
Edward Thomas Jones
Rhys ap Gwilym
Ciara Crummey



UNIVERSITY of STRATHCLYDE
**FRASER OF ALLANDER
INSTITUTE**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Cynhaliwyd yr ymchwil hon ar y cyd gan Sefydliad Fraser of Allander ym Mhrifysgol Strathclyde a Phrifysgol Bangor, ar gomisiwn Llywodraeth Cymru, i lywio posibiliadau ar gyfer opsiynau pellach i ddatganoli treth incwm yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r fframwaith ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru yn un o rhannol ddatganoli. Mae cyfraddau treth y DG ar incwm nad yw'n gynilion nac yn ddifidendau (NCND) yng Nghymru yn cael eu lleihau o 10 ceiniog ym mhob band, ac mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl i osod ei chyfradd ei hun ym mhob band. Hyd yma, mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) wedi'u gosod ar 10c ym mhob band, sy'n golygu bod trethdalwyr yng Nghymru wedi talu'r un cyfraddau cyflawn ag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) sy'n adlewyrchu'r refeniw y mae Llywodraeth y DG yn ei golli.

Modelau datganoli posib

Ystyrir yr adroddiad hwn bedwar model ar gyfer datganoli treth incwm NCND, i gyd o fewn strwythur presennol datganoli yn y DG:

- A. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gyda'r AGB wedi'i gyfrifo fesul band. Hynny yw, y trefniant presennol;
- B. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gydag AGB sengl;
- C. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB sengl. Hynny yw, y trefniant presennol yn yr Alban;
- D. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB fesul band.


Mae sawl maes o ddatganoli tu hwnt i gwmpas yr adroddiad, megis diffiniad incwm, gosodiad y Lwfans Personol, a'i lleihad graddol (tapr) uwchlaw £100,000, ac ystyriaethau ynghylch treth ar incwm cynilion a difidendau.

Modelwyd y pedwar model hyn i ddangos sensitifrwydd sefyllfa treth net – sef y gwahaniaeth rhwng refeniw a gadwyd gan Lywodraeth Cymru a'r AGB – i newid mewn twf enillion ac i bolisi Llywodraeth y DG.¹ Aseswyd y rhain o'u cymharu â'r sefyllfaoedd

¹ Modelwyd yr holl senarios gan ddefnyddio'r dull cymharol ar gyfer cyfrifo'r AGB. Pe bai'r dull mynegai fesul pen yn cael ei ddefnyddio yn ei le, byddai'r effeithiau'n fwy cadarnhaol i Lywodraeth Cymru pe bai poblogaeth Cymru'n tyfu'n arafach na phoblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel sydd wedi bod yn tueddol.

sylfaen a ddangoswyd yn siart C.1, sy'n tybio bod cyfrifiad y AGB wedi'i weithredu'n gyson ers 2019-20.²

Siart C.1: Amcangyfrif o'r sefyllfa net sylfaenol yn 2026-27 gan dybio AGB cyson ers 2019-20



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

² Noder y gallai unrhyw newidiadau yn y dyfodol gynnwys neu beidio cynnwys y gwahaniaethau blaenorol hyn — byddai hynny'n dibynnu ar drafodaethau. Fodd bynnag, mae'u cymharu ar seiliau wahanol yn ddefnyddiol er mwyn dangos effeithiau cyfrifiadau'r AGB sy'n deillio o'u nodweddion sylfaenol, ac felly'n gallu cael eu cyffredinoli.

Effaith gwahaniaethau mewn twf enillion


Prif gasgliad yr astudiaeth yw bod cyfaddawd rhwng lefel y risg y mae Llywodraeth Cymru yn ei hysgwyddo a lefel y rheolaeth y gall ei defnyddio dros system treth incwm Cymru. Os yw popeth arall yn gyfartal, mae systemau rhannol datganoledig (A a B) yn tueddu i gael effeithiau llai ar y sefyllfa net, yn y senario sylfaenol (siart C.1) ac o ganlyniad i newid twf enillion neu baramedrau polisi Llywodraeth y DG (siartiau C.2 ac C.3).

O dan modelau datganoli llawn (C a D), mae'r risg i'r sefyllfa net yn uwch. Gall canlyniadau fod yn fwy cadarnhaol, ond hefyd yn fwy negyddol, yn enwedig os bydd twf cyflogau yng Nghymru yn arafach nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae AGB fesul band (modelau A a D) yn gallu arwain at amrywiadau mwy mewn rhai amgylchiadau, ond mewn un o'r senarios pwysicaf – twf gwahanol mewn enillion rhwng Cymru a'r ardal gymharu (Lloegr a Gogledd Iwerddon) – mae'r amrywiad yn llai o dan systemau fesul band (gweler siart C.2).

Mae hyn oherwydd bod gan yr ardal gymharu gyfran llawer uwch o drethdalwyr cyfradd ychwanegol, yn enwedig yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. O ganlyniad, mae twf cyflymach yno yn cynyddu refeniw o'r band uchaf mewn ffordd nad yw'r AGB sengl (modelau B ac C) yn ei gwrthbwysu. Mae hwn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban, sy'n gweithredu model C, ers 2017-18.

Siart C.2: Effaith y senarios enillion ar y sefyllfa net



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor


Effaith polisi Llywodraeth y DG

Mae Siart C.3 yn dangos bod newidiadau polisi yn y DG ynglŷn â'r trothwyon uwch ac ychwanegol yn cael effaith fwy ar y sefyllfa dreth net o dan AGB fesul band, o gymharu ag AGB sengl. Mae'r senario cynyddu'r Lwfans Personol (mewn cyferbyniad â rhewi trothwyon yn y blynyddoedd diweddar) yn dangos pob model yr arwain at effeithiau mawr negyddol, ond mae'r AGB sengl (modelau B ac C) yn arwain at effeithiau mwy i'r sefyllfa net nag AGB fesul band.

Mae'n bwysig ystyried cyd-destun polisi Llywodraeth y DG. O ystyried y polisi rhewi trothwyon sydd wedi bod ar waith ers dechrau'r 2020au, mae'r systemau fesul band (modelau A a D) yn gyson yn arwain at sefyllfa net uwch o bob rhewiad trothwy, nad yw'n wir am y systemau AGB sengl (B a C).

Er bod hyn yn wir o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n bwysig bod yn ofalus i beidio â chyffredinolli manteision yn rhy eang - yn enwedig o ystyried bod fframwaith cyllidol yn fwy parhaol na phenderfyniadau cyfraddau treth a throthwy. Er enghraifft, cynyddwyd y trothwy cyfradd uwch tua £7,000 mewn ychydig flynyddoedd yn ystod cyfnodau George Osborne a Philip Hammond fel Canghellor. Byddai gwneud hynny nawr yn arwain at waethygu difrifol yn sefyllfa dreth net Cymru o dan y trefniadau AGB fesul band, ond nid gydag un AGB.

Siart C.3: Effaith senarios polisi Llywodraeth y DG ar y sefyllfa net



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

Patrwm sy'n dod i'r amlwg o'r senarios a fodelwyd yw bod model D (datganoli cyfraddau a throthwyon yn llawn gan ddefnyddio AGB fesul band) yn creu llawer mwy o amrywiad mewn canlyniadau yn y sefyllfa net ond am pryd mae newidiadau i'r lwfans personol a thwf gwahaniaethol o'i gymharu â Lloegr. Mae hyn yn cael effeithiau amrywiol. Er enghraifft, mae'n amddiffyn rhag erydiad y sefyllfa net oherwydd twf cyflymach mewn incwm ar frig y dosbarthiad, ond mae hefyd yn gwaethgu'r gost i Lywodraeth Cymru o gynnydd yn y trothwyon uwch ac ychwanegol a'r sensitifrwydd i dwf enillion cyflymach ar waelod y dosbarthiad.

Parodrwydd i ysgwyddo risg a chyd-ddibyniaeth

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae twf mewn refeniw treth o frig y dosbarthiad incwm — sy'n gysylltiedig â thwf incwm uwch ar y brig sy'n rhyngweithio â natur gynyddol y system dreth — wedi bod yn gryfach o'i gymharu â gwaelod y dosbarthiad incwm. Mae twf incwm yn gyffredinol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi bod yn uwch na Chymru. Mae hyn yn cynnwys Llundain a De Ddwyrain Lloegr, sydd â chrynodiad llawer uwch o drethdalwyr cyfradd ychwanegol nag sydd yng Nghymru, ac efallai felly y gwelir model D yn fwy ffafriol na model C. Fel y dengys siart C.2, mae trefniant AGB fesul band yn golygu gwelliant yn y sefyllfa dreth net pan fo twf uwch ar frig y dosbarthiad, a llai o waethiant pan fo twf uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, o'i gymharu â systemau AGB sengl. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban ers i'r dreth incwm gael ei datganoli'n llawn, ac os yw twf cyflymach ar frig y dosbarthiad a/neu dwf cyflymach yn

Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn strwythurol, ac felly'n fwy tebygol o ddigwydd, gallai'r cyfaddawd fod o blaid trefniant fesul band.

Byddai rheolaeth lawn dros gyfraddau a bandiau yn rhoi mwy o reolaeth i'r Senedd a Llywodraeth Cymru dros y system treth incwm yn ei chyfanrwydd. Byddai'n creu mwy o hyblygrwydd ym mhôlisi treth incwm yng Nghymru, gan ddarparu mwy o le i addasu polisïau i adlewyrchu'r sylfaen dreth a'r farchnad lafur yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, nid oes angen unrhyw weithred uniongyrchol i newid cyfraddau treth y DG er mwyn iddynt gael effaith yng Nghymru; caiff CTIC eu cymhwyso ar ben cyfraddau'r DG, ac ni fyddai newid cyfradd gan Lywodraeth y DG yn effeithio ar yr AGB ac felly'n cael fawr o effaith ar y sefyllfa dreth net.

Fodd bynnag, nid yw'r rheolaeth bellach dan fodelau C a D yn gwbl absoliwt. Byddai newidiadau i dreth incwm a osodir gan Lywodraeth y DG yn cael effaith uniongyrchol ar yr AGB ac felly ar y sefyllfa dreth net, a byddai hynny'n gwaethygu pe bai cyfraddau treth y DG yn cynyddu. Dyma oedd canlyniad rhesymegol y cyd-destun cyllidol a ddaeth i'r amlwg yn yr Alban yn ystod y cyfnod cyn Gyllideb 2025. Byddai hyn yn galw am weithredu gan y llywodraeth ddatganoledig berthnasol, boed trwy newid cyfraddau treth i gyd-fynd â Llywodraeth y DG neu addasu gwariant i ymdopi â'r newid yn y sefyllfa dreth net.

Felly, nid yw cyfraddau treth incwm yn cael eu gosod mewn gwacter, hyd yn oed mewn system lle mae gan lywodraeth ddatganoledig reolaeth lawn dros gyfraddau a throthwyon. Maent yn parhau i gael eu gosod mewn perthynas â chyfraddau Llywodraeth y DG, er yn llai uniongyrchol. Oherwydd bod mecanwaith addasu'r grant bloc yn gymhleth ac, ar adegau, yn ymddangos yn wrthreddfoll, gall fod yn anodd i'r cyhoedd ddeall pam y mae'n rhaid addasu gwariant fel canlyniad i fesurau gan Lywodraeth y DG.

Yn ddamcaniaethol, gallai penderfyniadau ynghylch rheolaeth lawn dros gyfraddau a throthwyon ddigwydd ar wahân i benderfyniadau ynghylch defnyddio trefniant AGB sengl neu AGB fesul band. Bydd ffurf unrhyw ddatganoli pellach yn dibynnu ar drafodaethau a chytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG. Yn ymarferol, fodd bynnag, byddai hynny'n ddibynnol ar yr hyn sy'n dderbyniol i'r ddwy lywodraeth. Mae'n werth nodi, er enghraifft, mai AGB sengl sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban o dan fersiwn o ddatganoli llawn (model C).

Casgliad

Mae'r ddadansoddiad hwn yn cynnwys senarios sy'n cwmpasu newidiadau mewn enillion a newidiadau i bolisi Llywodraeth y DG er mwyn dangos i ba raddau y gall gwahanol fodelau o ddatganoli effeithio ar sefyllfa treth net Llywodraeth Cymru. Mae'r modelau'n cynnwys rhannol ddatganoli treth incwm gyda AGB fesul band (y model

presennol) ac AGB sengl; a datganoli cyfraddau a throthwyon treth incwm yn llawn, gan ddefnyddio AGB sengl (y model sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr Alban) ac AGB fesul band.

Mae cyfaddawd rhwng y lefel o reolaeth y gall Llywodraeth Cymru ei defnyddio dros siâp y system treth incwm a'r lefel o risg y mae'n ei hysgwyddo. Mae systemau rhannol ddatganoli yn cynnig llai o reolaeth, ond maent hefyd yn lleihau effaith newidiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Mae systemau AGB sengl yn arbennig yn gysylltiedig â gostyngiadau mwy yn y sefyllfa treth net os yw twf mewn enillion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gyflymach nag yng Nghymru — gan adlewyrchu canlyniadau'r Alban ers i'r dreth incwm gael ei datganoli'n llawn. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad incwm gwahanol iawn, yn enwedig yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Mae systemau AGB fesul band, ar y llaw arall, yn fwy sensitif i newidiadau yn nhrothwyon uwch ac ychwanegol Llywodraeth y DG. Er bod y rhain wedi bod o fudd i Gymru ers datganoli, byddai penderfyniadau polisi tebyg i'r rhai a wnaed yn ystod y 2010au wedi gwaethygu'r sefyllfa net yn sylweddol.

Nid oes un system orau ymhlith y pedwar model a ystyriwyd — mae gan bob un fanteision ac anfanteision. Byddai unrhyw ddewis o ran newidiadau i'r modd y caiff treth incwm ei ddatganoli yng Nghymru yn gorfod ystyried parodrwydd Llywodraeth Cymru i ysgwyddo risg ac asesiad realistig o'r senarios mwy negyddol. Bydd hefyd yn rhaid ystyried unrhyw fregusrwydd posibl pe bai cyfeiriad polisi Llywodraeth y DG yn newid yn y dyfodol, yn ogystal â'r rhyngweithiad parhaus â chyfraddau a throthwyon y DG sy'n nodwedd barhaol o unrhyw system treth incwm datganoledig.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Modelau datganoli treth incwm	3
2.1	Model A: Rhannol ddatganoli gyda'r AGB wedi'i gyfrifo fesul band. Hynny yw, y trefniant presennol)	3
2.2	Model B: Rhannol ddatganoli gydag AGB sengl	4
2.3	Model C: Datganoli llawn gydag AGB sengl (trefniant presennol yr Alban)	4
2.4	Model D: Datganoli llawn gydag AGB fesul band	5
2.5	Ystyriaethau ynghylch modelau amgen a chyfyngiadau'r dadansoddiad	5
3.	Crynodeb canlyniadau	7
3.1	Senarios a fodelwyd	7
3.2	Effaith newidiadau i dwf enillion ar sefyllfa dreth net Cymru	8
3.3	Effaith polisi Llywodraeth y DG ar sefyllfa dreth net Cymru	10
3.4	Themâu sy'n dod i'r amlwg o ganlyniadau'r senarios	11
3.5	Casgliad	12

1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hon ar y cyd gan Sefydliad Fraser of Allander ym Mhrifysgol Strathclyde a Phrifysgol Bangor, ar gomisiwn Llywodraeth Cymru, i lywio posibiliadau ar gyfer opsiynau pellach i ddatganoli treth incwm yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r fframwaith ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru yn un o rhannol ddatganoli. Mae cyfraddau treth y DG ar incwm nad yw'n gynilion nac yn ddifidendau (NCND) yng Nghymru yn cael eu lleihau o 10 ceiniog ym mhob band, ac mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl i osod ei chyfradd ei hun ym mhob band. Hyd yma, mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) wedi'u gosod ar 10c ym mhob band, sy'n golygu bod trethdalwyr yng Nghymru wedi talu'r un cyfraddau cyflawn ag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) sy'n adlewyrchu'r refeniw y mae Llywodraeth y DG yn ei golli.

Ystyrir yr adroddiad hwn bedwar model ar gyfer datganoli treth incwm NCND, i gyd o fewn strwythur presennol datganoli yn y DG:

- A. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gyda'r AGB wedi'i gyfrifo fesul band. Hynny yw, y trefniant presennol;
- B. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gydag AGB sengl;
- C. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB sengl. Hynny yw, y trefniant presennol yn yr Alban;
- D. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB fesul band.


Mae sawl maes datganoli pellach tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, megis diffiniad incwm, gosodiad y Lwfans Personol, a'i lleihad graddol (tapr) uwchlaw £100,000, ac ystyriaethau ynghylch treth ar incwm cynilion a difidendau.

Modelwyd y pedwar model hyn i ddangos sensitifrwydd sefyllfa treth net – sef y gwahaniaeth rhwng refeniw a gadwyd gan Lywodraeth Cymru a'r AGB – i newid mewn twf enillion ac i bolisi Llywodraeth y DG.¹ Aseswyd y rhain o'u cymharu â'r sefyllfaoedd sylfaen a ddangoswyd yn siart 1.1, sy'n tybio bod cyfrifiad y AGB wedi'i weithredu'n gyson ers 2019-20.²

¹ Modelwyd yr holl senarios gan ddefnyddio'r dull cymharol ar gyfer cyfrifo'r AGB. Pe bai'r dull mynegai fesul pen yn cael ei ddefnyddio yn ei le, byddai'r effeithiau'n fwy cadarnhaol i Lywodraeth Cymru pe bai poblogaeth Cymru'n tyfu'n arafach na phoblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel sydd wedi bod yn tueddol.

² Noder y gallai unrhyw newidiadau yn y dyfodol gynnwys neu beidio cynnwys y gwahaniaethau blaenorol hyn — byddai hynny'n dibynnu ar drafodaethau. Fodd bynnag, mae'u cymharu ar seiliau wahanol yn ddefnyddiol er mwyn dangos effeithiau cyfrifiadau'r AGB sy'n deillio o'u nodweddion sylfaenol, ac felly'n gallu cael eu cyffredinoli.

Siart 1.1: Amcangyfrif o'r sefyllfa net sylfaenol yn 2026-27 gan dybio AGB cyson ers 2019-20



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn: mae penod 2 yn cyflwyno'r pedwar model o ddatganoli treth incwm a ystyriwyd yn fanwl, ac mae penod 3 yn crynhoi'r senarios a gafodd eu modelu, y canlyniadau, a'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y gwahanol fodelau o ddatganoli yn seiliedig ar y canlyniadau hynny. Mae saith atodiad methodolegol: mae atodiad A1 yn sefydlu'r sylfaen dreth a'r rhagdybiaethau sylfaenol a ddefnyddir i fodelu'r canlyniadau hyd at 2029-30; mae A2 yn ystyried cyfrifiadau'r addasiad i'r grant bloc a'r gwahanol fodelau (y dull mynegai fesul pen a'r dull cymharol); mae A3 yn sefydlu canlyniadau'r senario llinell sylfaen, y cyfeirir atynt wrth gymharu'r senarios eraill yn A4; mae A5 yn nodi cyfyngiadau'r modelu; mae A6 yn cyflwyno manylion technegol cyfrifiadau'r AGB; ac mae A7 yn trafod yr ymatebion ymddygiadol a gynhwysir yn y modelu treth incwm.

2. Modelau datganoli treth incwm

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar y modelau o ddatganoli a ystyriwyd yn yr ymchwiliad hon. Rydym wedi archwilio pedwar model o ddatganoli treth incwm NCND, i gyd o fewn strwythur presennol datganoli yn y DG. Y rhain yw:

- A. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gyda'r AGB wedi'i gyfrifo fesul band. Hynny yw, y trefniant presennol;
- B. Rhannol ddatganoli (10c ym mhob band) gydag AGB sengl;
- C. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB sengl. Hynny yw, y trefniant presennol yn yr Alban;
- D. Datganoli llawn cyfraddau a throthwyon, gydag AGB fesul band.

2.1 Model A: Rhannol ddatganoli gyda'r AGB wedi'i gyfrifo fesul band. Hynny yw, y trefniant presennol)

Cyfeirir at hwn drwy'r ddogfen fel model A neu opsiwn A, ac mae'n cynrychioli'r sefyllfa bresennol.

Mae'r fframwaith presennol ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru yn un o ddatganoli rhannol, fel y'i rheoleiddir gan Ddeddfau Cymru 2014 a 2017. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) ar incwm nad yw'n gynilion nac yn ddi-fidendau (NCND), y mae trethdalwyr Cymru yn atebol amdano.

O dan CTIC, caiff pob un o gyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol Llywodraeth y DG ei lleihau gan 10 ceiniog ar gyfer trethdalwyr Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r cyfraddau Cymreig cyfatebol ar gyfer pob band. Caiff Llywodraeth Cymru bennu tair cyfradd — y cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol (a elwir hefyd yn y cyfraddau Cymreig) — sy'n cael eu cymhwyso i'r bandiau perthnasol. Mae cyfuniad y cyfraddau Cymreig a'r cyfraddau DG yn pennu'r dreth incwm a dalir gan drethdalwyr Cymru ar incwm NCND³. Ers datganoli CTIC, mae'r cyfraddau wedi'u gosod ar 10 ceiniog yn y bunt, felly mae trethdalwyr Cymru wedi talu'r un faint o dreth â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r effaith net ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y refeniw a godir drwy CTIC ac ar y didyniad o'r grant bloc (sef yr Addasiad i'r Grant Bloc (AGB)). Mae'r AGB yn adlewyrchu'r refeniw treth incwm y byddai Llywodraeth y DG wedi'i godi yng Nghymru pe na bai datganoli wedi digwydd. Yn ymarferol, caiff yr AGB ei gynyddu dros amser

³ Cyhoeddodd Llywodraeth y DG gyfradd newydd o dreth incwm ar eiddo yn y Gyllideb 2025. Er ei bod yn ffrwd incwm ar wahân y gellir cyflwyno cyfradd ar wahân ar ei chyfer, bydd yn ffurfio rhan o'r incwm NCND y mae gan Gymru a'r Alban reolaeth drosto. Os bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG yn cytuno, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu pennu'r cyfraddau Cymreig ar gyfer y cyfraddau eiddo yn ogystal â'r cyfraddau Cymreig presennol.

drwy fecanwaith mynegeo sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y refeniw treth incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan olygu bod sefyllfa cyllidebol Llywodraeth Cymru yn dibynnu nid yn unig ar lefel y refeniw treth a godir yng Nghymru, ond hefyd ar ba mor dda y mae refeniw treth incwm Cymru'n perfformio o'i gymharu â'r ardal gymharu hon.

Caiff yr AGB ei bennu gan ddefnyddio'r dull cymharol. Mae hyn yn ystyried:

- y newid yn y refeniw treth incwm cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (10 ceiniog ym mhob band);
- ffactor cymharoldeb sy'n adlewyrchu treth y pen yng Nghymru fel cyfran o dreth y pen a godwyd gan Lywodraeth y DG ar adeg datganoli; a
- cyfran y boblogaeth.

Ar gyfer CTIC, caiff y dull cymharol ei gymhwyso fesul band. Mae hyn yn golygu bod ffactor cymharoldeb ar wahân yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob band er mwyn adlewyrchu cyfran Cymru o'r dreth y pen a godwyd gan Lywodraeth y DG ar adeg datganoli. Mae'r ffactor cymharoldeb yn rhoi pwysau i bob band sy'n adlewyrchu cryfder y sylfaen dreth yng Nghymru ar gyfer y band hwnnw, ac yn addasu'r effaith o dwf treth Llywodraeth y DG yn unol â hynny.

Y ffactorau cymharoldeb presennol yw:

- Cyfradd sylfaenol – 81.9%
- Cyfradd uwch – 39%
- Cyfradd ychwanegol – 11.4%

Mae hyn yn golygu bod unrhyw gynnydd mewn refeniw yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar y gyfradd sylfaenol yn arwain at addasiad grant bloc mwy (sef gostyngiad yn yr achos hwn) nag y byddai cynnydd mewn refeniw ar y gyfradd ychwanegol.

2.2 Model B: Rhannol ddatganoli gydag AGB sengl

Mae Model B yn cadw trefniant CTIC o 10c ar bob band yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru, ac yn addasu dim ond y mecanwaith AGB. Caiff y dull cymharol ei ddefnyddio o hyd ar gyfer cyfrifo'r AGB, ond yn y bôn caiff y bandiau gwahanol eu pwysu'n gyfartal, a chaiff eu cyfrifo fel un endid sengl.

2.3 Model C: Datganoli llawn gydag AGB sengl (trefniant presennol yr Alban)

Mae Model C yn defnyddio'r un dull ar gyfer cyfrifo'r AGB â model B o ran pwysu, ond yn ystyried achos datganoli llawn cyfraddau a bandiau. Dyma'r model a ddefnyddir ar gyfer datganoli treth incwm yn yr Alban.

Y prif wahaniaeth yw y byddai yr holl refeniw NCND yn y model hwn yn llifo i Lywodraeth Cymru, ond y byddai'r AGB yn fwy, gan y byddai'n seiliedig ar gyfanswm refeniw Lloegr a Gogledd Iwerddon yn hytrach nag ar sail CTIC.

Rydym yn ystyried model lle caiff y refeniw a'r pwerau eu datganoli, ond ni wneir unrhyw newidiadau i'r cyfraddau na'r trothwyon, ac felly byddai bandiau a chyfraddau Cymru yn parhau i fod yn unol â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Wrth gwrs, efallai na fyddai hyn yn wir mewn gwirionedd pe caent eu datganoli: er enghraifft, mae gan system dreth yr Alban chwe band bellach, gyda chyfraddau treth rhwng 19% a 48%. Ond mae asesu effaith newidiadau dilynol i gyfraddau a bandiau y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

2.4 Model D: Datganoli llawn gydag AGB fesul band

Mae Model D yn ystyried y senario lle caiff datganoli llawn bandiau a chyfraddau yn model C ei gyfuno â'r mecanwaith fesul band sydd ar hyn o bryd yn bodoli yn y system Gymreig (model A). Mae'r ffactorau cymharoldeb a gymhwysir fesul band yn y model hwn yr un fath ag yn model A, ond cânt eu cymhwyso i'r holl rwymedigaethau treth incwm NCND yn Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan drefniant datganoli llawn.

2.5 Ystyriaethau ynghylch modelau amgen a chyfyngiadau'r dadansoddiad

Byddai rheolaeth lawn dros gyfraddau a bandiau yn rhoi mwy o reolaeth i'r Senedd a Llywodraeth Cymru dros y system treth incwm yn ei chyfanrwydd. Byddai'n creu mwy o hyblygrwydd ym mhôlisi treth incwm yng Nghymru, gan ddarparu mwy o le i addasu polisïau i adlewyrchu'r sylfaen dreth a'r farchnad lafur yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, nid oes angen unrhyw weithred uniongyrchol i newid cyfraddau treth y DG er mwyn iddynt gael effaith yng Nghymru; caiff CTIC eu cymhwyso ar ben cyfraddau'r DU, ac ni fyddai newid cyfradd gan Lywodraeth y DG yn effeithio ar yr AGB ac felly'n cael fawr o effaith ar y sefyllfa dreth net.

Fodd bynnag, nid yw'r rheolaeth bellach dan fodolau C a D yn gwbl absoliwt. Byddai newidiadau i dreth incwm a osodir gan Lywodraeth y DG yn cael effaith uniongyrchol ar yr AGB ac felly ar y sefyllfa dreth net, a byddai hynny'n gwaethygu pe bai treth y DG yn cynyddu. Dyma oedd canlyniad rhesymegol y cyd-destun cyllidol a ddaeth i'r amlwg yn yr Alban yn ystod y cyfnod cyn Gyllideb 2025. Byddai hyn yn galw am weithredu gan y llywodraeth ddatganoledig berthnasol, boed trwy newid cyfraddau treth i gyd-fynd â Llywodraeth y DG neu addasu gwariant i ymdopi â'r newid yn y sefyllfa dreth net.

Felly, nid yw cyfraddau treth incwm yn cael eu gosod mewn gwacter, hyd yn oed mewn system lle mae gan lywodraeth ddatganoledig reolaeth lawn dros gyfraddau a throthwyon. Maent yn parhau i gael eu gosod mewn perthynas â chyfraddau Llywodraeth y DG, er yn llai uniongyrchol. Oherwydd bod mecanwaith addasu'r grant

bloc yn gymhleth ac, ar adegau, yn ymddangos yn wrthreddfoll, gall fod yn anodd i'r cyhoedd ddeall pam y mae'n rhaid addasu gwariant fel canlyniad i fesurau gan Lywodraeth y DG.

Yn ddamcaniaethol, gallai penderfyniadau ynghylch rheolaeth lawn dros gyfraddau a throthwyon ddigwydd ar wahân i benderfyniadau ynghylch defnyddio trefniant AGB sengl neu AGB fesul band. Bydd ffurf unrhyw ddatganoli pellach yn dibynnu ar drafodaethau a chytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG. Yn ymarferol, fodd bynnag, byddai hynny'n ddibynnol ar yr hyn sy'n dderbyniol i'r ddwy lywodraeth. Mae'n werth nodi, er enghraifft, mai AGB sengl sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban o dan fersiwn o ddatganoli llawn (model C).

Mae nifer o bosibiliadau ar gyfer modelau gwahanol o ddatganoli sydd y tu hwnt i gwmpas y gwaith hwn. Er enghraifft, mae'r Lwfans Personol yn bŵer a gedwir gan Lywodraeth y DU, hyd yn oed yn achos datganoli llawn bandiau a chyfraddau,⁴ ond gellid ei ddatganoli ymhellach. Mae diffiniad incwm, eithriadau a rhyddhadau hefyd yn faterion a gedwir, a gellid datganoli'r rhain ymhellach, ond ni ystyrir hynny yma.⁵ Mae'r un peth yn wir am ddatganoli treth incwm ar gynilion a difidendau, yn ogystal â datganoli'r agwedd weithredol o gasglu treth incwm. Ni ystyrir unrhyw un o'r rhain yn y dadansoddiad hwn, sydd wedi ei gyfyngi i'r pedwar model (A–D) a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adran hon.

Modelwyd yr holl senarios gan ddefnyddio'r dull cymharol ar gyfer cyfrifo'r AGB. Pe bai'r dull mynegai fesul pen yn cael ei ddefnyddio yn ei le, byddai'r effeithiau'n fwy cadarnhaol i Lywodraeth Cymru pe bai poblogaeth Cymru'n tyfu'n arafach na phoblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel sydd wedi bod yn tueddol.

⁴ Mae hyn yn wir yn achos Treth Incwm yr Alban. Yn ddamcaniaethol, byddai eisoes yn bosibl cynyddu'r Lwfans Personol (LP) drwy osod band cyfradd sero uwchlaw'r Lwfans Personol a bennir gan Lywodraeth y DG, ond ni fyddai'n bosibl ei leihau.

⁵ Bydd Llywodraeth y DG yn cyflwyno cyfradd newydd, ar wahân, ar gyfer incwm o eiddo, a bydd gan Lywodraeth Cymru y pŵer i'w hamrywio os dymuna wneud hynny. Fodd bynnag, caiff incwm o eiddo ei drin ar hyn o bryd fel rhan o incwm NCND heb unrhyw adrodd ar wahân, ac felly dyma sut yr ydym yn ei gyfrif yn yr adroddiad hwn.

3. Crynodeb canlyniadau

3.1 Senarios a fodelwyd

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio naw senario i ddangos effaith newidiadau mewn twf enillion a phenderfyniadau polisi Llywodraeth y DG ar sefyllfa dreth net Llywodraeth Cymru.⁶ Disgrifir y rhain yn fanwl yn Atodiad Methodolegol 4, ond cânt eu crynhoi isod:

- Twf enillion uwch ac is na rhagolwg canolog Swyddfa Cyfrifon Cyhoeddus (OBR) mis Mawrth 2025;
- Twf enillion uwch ac is yn Lloegr a Gogledd Iwerddon nag yng Nghymru, gyda twf Cymru yn seiliedig ar ragolwg canolog OBR mis Mawrth 2025;
- Twf enillion cyflymach ar frig neu waelod y dosbarthiad incwm, gyda'r hanner canol (chwarter 25–75) yn tyfu yn ôl rhagolwg canolog OBR mis Mawrth 2025;
- Senarios polisi Llywodraeth y DG lle caiff y Lwfans Personol (LP), y Trothwy Cyfradd Uwch (TCU) a'r Trothwy Cyfradd Ychwanegol (TCY) eu cynyddu 10%.⁷


⁶ Modelwyd yr holl senarios gan ddefnyddio'r dull cymharol ar gyfer cyfrifo'r AGB. Pe bai'r dull mynegai fesul pen yn cael ei ddefnyddio yn ei le, byddai'r effeithiau'n fwy cadarnhaol i Lywodraeth Cymru pe bai poblogaeth Cymru'n tyfu'n arafach na phoblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel sydd wedi bod yn tueddol.

⁷ Caiff y cynnydd o 10% yn y Lwfans Personol (LP) ei fodelu ar y cyd â chynnydd cyfatebol yn y tapr LP ac yn y Trothwy Cyfradd Ychwanegol (TCY) o ddwywaith y maint, er mwyn osgoi anghysondeb rhwng y tapr a'r trothwy cyfradd ychwanegol.

3.2 Effaith newidiadau i dwf enillion ar sefyllfa dreth net Cymru

Mae Siart 3.1 yn dangos effaith y gwahanol senarios twf enillion a fodelwyd ar sefyllfa treth net Llywodraeth Cymru dros flwyddyn lawn.

Siart 3.1: Effaith y senarios enillion ar y sefyllfa net



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

Mae'r senarios hyn yn dangos bod y systemau sydd wedi'u datganoli'n llawn (modelau C a D) yn gysylltiedig ag amrywiadau mwy yn y sefyllfa net. Mae hyn yn ganlyniad rhesymegol i'r ffaith bod maint y refeniw a gedwir a maint yr AGB yn fwy, ac felly mae'r amrywiadau yn y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigwr mwy hyn hefyd yn fwy ar gyfer unrhyw newid penodol mewn twf enillion (gweler siart 1.1).

Ar gyfer senarios lle mae twf yn debyg rhwng Cymru a'r ardal gymharu (Lloegr a Gogledd Iwerddon), mae'r systemau AGB fesul band (A a D) fel arfer yn gysylltiedig ag amrywiadau mwy yn y sefyllfa net o'u cymharu ag AGB sengl. Gall hyn fod o fudd i Gymru os yw'r cyfeiriad yn gadarnhaol (e.e. twf enillion uwch), ond gall fod yn andwyol os yw'r siociau'n negyddol (e.e. twf enillion is). Mae'r rhyngweithiad rhwng hyn a datganoli llawn yn golygu bod yr effaith yn arbennig o gryfach ar gyfer model D o'i gymharu â model C.

Ond ar gyfer un o'r senarios mwyaf arwyddocaol — sef twf enillion gwahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon — mae'r effaith ar y sefyllfa net yn llai o dan systemau AGB fesul band. Mae hyn yn cael ei achosi gan gyfran uwch o drethdalwyr cyfradd ychwanegol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon — yn enwedig yn

Llundain a De Ddwyrain Lloegr — sy'n golygu bod y dosbarthiad incwm yn yr ardal gymharu yn rhoi mwy o refeniw treth yn y lle cyntaf. Byddai twf cyflymach yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gwaethygu'r effaith hon, ac nid oes gan y systemau AGB sengl (modelau B a C) unrhyw fecanwaith gwrthbwysu i leihau effaith y refeniw ychwanegol hwn. Mae hyn yn adlewyrchu beth sydd wedi digwydd yn yr Alban, sy'n gweithredu model C, ers 2017–18.

Mae'r dadansoddiadau fesul blwyddyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Dadansoddiad fesul blwyddyn o'r effaith ar y sefyllfa net o'r senarios twf enillion


£m	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Senario twf 1: twf enillion uwch				
Model A	14	29	49	72
Model B	-1	-2	-1	0
Model C	10	22	34	45
Model D	57	120	191	272
Senario twf 2: twf enillion is				
Model A	-15	-26	-42	-56
Model B	-5	-6	-11	-13
Model C	-10	-21	-31	-40
Model D	-44	-88	-136	-185
Senario twf 3: twf enillion uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon				
Model A	-17	-34	-51	-64
Model B	-32	-66	-100	-136
Model C	-107	-221	-341	-469
Model D	-61	-123	-184	-242
Senario twf 4: twf enillion is yn Lloegr a Gogledd Iwerddon				
Model A	27	56	85	115
Model B	37	76	116	158
Model C	107	218	332	452
Model D	74	151	228	307
Senario twf 5: twf enillion uwch ar frig y dosbarthiad incwm				
Model A	12	24	41	61
Model B	-10	-22	-30	-40
Model C	-16	-33	-51	-70
Model D	52	110	177	255
Senario twf 6: twf enillion uwch ar waelod y dosbarthiad incwm				
Model A	-13	-22	-37	-50
Model B	5	13	18	26
Model C	17	35	54	75
Model D	-40	-80	-125	-173

Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

3.3 Effaith polisi Llywodraeth y DG ar sefyllfa dreth net Cymru

Mae Siart 3.2 yn dangos effaith flwyddyn lawn y gwahanol senarios polisi Llywodraeth y DU a fodelwyd ar sefyllfa treth net Cymru.

Siart 3.2: Effaith senarios polisi Llywodraeth y DG ar y sefyllfa net



Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

Yn yr holl senarios hyn, rhagdybir bod y newidiadau i'r trothwyon yn gymwys i Gymru hefyd, er eu bod yn deillio o newidiadau polisi Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd, cânt eu cymhwyso'n awtomatig yng Nghymru, ond o dan fodelau C a D byddai'n ddewis i Lywodraeth Cymru, fel y mae ar hyn o bryd i Lywodraeth yr Alban (model C). Mae rhagdybio eu cymhwyso yng Nghymru yn gwneud effaith y gwahanol fodelau o ddatganoli yn fwy cymaradwy, er bod yr hyblygrwydd yn modelau C a D yn rhan annatod o'r modelau hynny.

Mae'r rhain yn bennaf yn bolisiau sy'n cyferbynnu â'r hyn sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf, gyda Llywodraeth y DU wedi penderfynu rhewi trothwyon yn gyffredinol. Wrth rhewi trothwyon, mae model A wedi golygu cynnydd yn sefyllfa net Cymru. Byddai hyn wedi digwydd i raddau pellach o dan fodel D, ond mae'n bennaf oherwydd y dull fesul band.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth gyffredinoli manteision y system fesul band yn ehangach — yn enwedig o gofio bod fframwaith cyllidol yn fwy parhaol na phenderfyniadau ar gyfraddau a throthwyon treth. Mae modelau A a D yn fwy manteisiol i Gymru o dan y polisi presennol o rewi'r trothwyon uwch ac ychwanegol. Ond y

gwrthwyneb i hyn yw y byddai cynnydd yn y trothwyon hyn yn hynod o gostus i Lywodraeth Cymru, ac yn llawer mwy felly o dan y systemau fesul band (modelau A a D) nag o dan systemau AGB sengl.

Gellir nodi y cafodd y trothwy cyfradd uwch ei gynyddu tua £7,000 dros gyfnod o ychydig flynyddoedd yn ystod cyfnodau George Osborne a Philip Hammond fel Canghellor. Byddai gwneud hynny nawr yn arwain at waethygiad difrifol yn sefyllfa treth net Cymru o dan drefniadau AGB fesul band, ond nid o dan AGB sengl. Pe bai cynnydd yn y Lwfans Personol yn debyg i'r rhai a wnaed yn ystod y 2010au, ar y llaw arall, byddai modelau B ac C (AGB sengl o dan ddatganoli rhannol a llawn) wedi gwaethygu cyllid Llywodraeth Cymru yn fwy na'r modelau AGB fesul band.

Tabl 3.2: Dadansoddiad fesul blwyddyn o'r effaith ar y sefyllfa net o'r senarios polisi Llywodraeth y DG

£m	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Senario polisi 1: Cynnydd 10% yn y trothwy cyfradd uwch				
Model A	-87	-88	-92	-95
Model B	11	14	13	14
Model C	20	19	20	21
Model D	-258	-273	-279	-290
Senario polisi 2: Cynnydd 10% yn y lwfans personol ac estyniad i'r tapr				
Model A	-25	-27	-28	-29
Model B	-70	-73	-75	-78
Model C	-196	-203	-208	-216
Model D	-62	-67	-69	-73
Senario polisi 3: Cynnydd 10% yn y trothwy cyfradd ychwanegol				
Model A	-30	-31	-33	-35
Model B	-2	-2	-2	-2
Model C	12	12	13	14
Model D	-124	-130	-137	-146

Ffynhonnell: Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor

3.4 Themâu sy'n dod i'r amlwg o ganlyniadau'r senarios

Mae nifer o themâu'n dod i'r amlwg wrth gyfuno'r holl senarios a ystyriwyd uchod.

Y prif un yw bod cyfaddawd rhwng y lefel o risg a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru a'r lefel o reolaeth y gall ei defnyddio dros siâp y system dreth incwm. Ar yr un sail, mae systemau datganoli rhannol (A a B) fel arfer yn arwain at effeithiau llai ar y sefyllfa net.

Mae systemau sydd wedi'u datganoli'n llawn (C a D) yn gyffredinol yn fwy peryglus o ran y sefyllfa net. Gallant arwain at welliannau mwy sylweddol yn y sefyllfa net, ond hefyd at canlyniadau mwy negyddol, yn enwedig os bydd cyflogau'n tyfu'n arafach yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Patrwm clir arall sy'n dod i'r amlwg yw bod model D (datganoli llawn cyfraddau a throthwyon gan ddefnyddio AGB fesul band) yn creu amrywiad sylweddol fwy yn y sefyllfa net. Mae hyn yn arwain at amryw o ganlyniadau. Er enghraifft, mae'n diogelu rhag erydu'r sefyllfa net yn sgil twf cyflymach mewn incwm ar frig y dosbarthiad, ond mae hefyd yn gwaethygu'r gost i Lywodraeth Cymru o gynyddu'r trothwyon uwch ac ychwanegol ac yn cynyddu sensitifrwydd i dwf enillion cyflymach ar waelod y dosbarthiad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae twf mewn refeniw treth o frig y dosbarthiad incwm — sy'n gysylltiedig â thwf incwm uwch ar y brig ac sy'n rhyngweithio â natur gynyddol y system dreth — wedi bod yn gryfach o'i gymharu â gwaelod y dosbarthiad incwm. O ystyried bod yr ardal gymharu (Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn cynnwys Llundain a De Ddwyrain Lloegr, sydd â chrynodiad llawer uwch o drethdalwyr cyfradd ychwanegol nag sydd yng Nghymru, gallai model D gael ei ystyried yn fwy ffafriol na model C. Fel y dengys siart 3.1, mae trefniadau AGB fesul band yn arwain at welliant yn y sefyllfa net yn y senario hwnnw, tra byddai trefniant AGB sengl yn gysylltiedig â gwaethygiad yn y sefyllfa net. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban ers datganoli llawn treth incwm, ac os yw twf cyflymach ar frig y dosbarthiad yn cael ei ystyried yn fwy tebygol, efallai y byddai'r cyfaddawd yn ffafrio trefniant fesul band.

3.5 Casgliad

Mae'r ddadansoddiad hwn yn cynnwys senarios sy'n cwmpasu newidiadau mewn enillion a newidiadau i bolisi Llywodraeth y DG er mwyn dangos i ba raddau y gall gwahanol fodelau o ddatganoli effeithio ar sefyllfa treth net Llywodraeth Cymru. Mae'r modelau'n cynnwys rhannol ddatganoli treth incwm gyda AGB fesul band (y model presennol) ac AGB sengl; a datganoli cyfraddau a throthwyon treth incwm yn llawn, gan ddefnyddio AGB sengl (y model sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr Alban) ac AGB fesul band.

Mae cyfaddawd rhwng y lefel o reolaeth y gall Llywodraeth Cymru ei defnyddio dros siâp y system treth incwm a'r lefel o risg y mae'n ei hysgwyddo. Mae systemau rhannol ddatganoli yn cynnig llai o reolaeth, ond maent hefyd yn lleihau effaith newidiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Mae systemau AGB sengl yn arbennig yn gysylltiedig â gostyngiadau mwy yn y sefyllfa treth net os yw twf mewn enillion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gyflymach nag yng Nghymru — gan adlewyrchu canlyniadau'r Alban ers i'r dreth incwm gael ei datganoli'n llawn. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad incwm gwahanol iawn, yn enwedig yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Mae systemau AGB fesul band, ar y llaw arall, yn fwy sensitif i newidiadau trothwyon treth Llywodraeth y DG. Er bod y rhain wedi bod o fudd i Gymru ers datganoli, byddai penderfyniadau polisi tebyg i'r rhai a wnaed yn ystod y 2010au wedi gwaethygu'r sefyllfa net yn sylweddol.

Nid oes un system orau ymhlith y pedwar model a ystyriwyd — mae gan bob un fanteision ac anfanteision. Byddai unrhyw ddewis o ran newidiadau i'r modd y caiff treth incwm ei ddatganoli yng Nghymru yn gorfod ystyried parodrwydd Llywodraeth Cymru i ysgwyddo risg ac asesiad realistig o'r senarios mwy negyddol. Bydd hefyd yn rhaid ystyried unrhyw fregusrwydd posibl pe bai cyfeiriad polisi Llywodraeth y DG yn newid yn y dyfodol, yn ogystal â'r rhyngweithiad parhaus â chyfraddau a throthwyon y DG sy'n nodwedd barhaol o unrhyw system treth incwm datganoledig.



UNIVERSITY of STRATHCLYDE
**FRASER OF ALLANDER
INSTITUTE**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Opsiynau am ddyfodol datganoli treth incwm yng Nghymru

Atodiadau methodolegol

João Sousa

Edward Thomas Jones

Rhys ap Gwilym

Ciara Crummey



UNIVERSITY of STRATHCLYDE
**FRASER OF ALLANDER
INSTITUTE**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cynnwys

A1. Atodiad Methodolegol 1: Sefydlu'r sylfaen dreth	2
A1.1 Newidiadau i'r boblogaeth a'r demograffeg	2
A1.2 Rhagdybiaethau twf incwm	2
A1.3 Cyfraddau a throthwyon treth.....	2
A1.4 Graddnodi i ddata trethdalwyr.....	2
A2. Atodiad Methodolegol 2: Addasiad i'r Grant Bloc	4
A2.1 Mynegai Fesul Pen.....	4
A2.2 Y Dull Cymharol	5
A2.3 Y dull modelu a chyfaddawdau.....	5
A3. Atodiad Methodolegol 3: Canlyniadau sylfaenol statig.....	7
A4. Atodiad Methodolegol 4: Dadansoddiad senarios	9
A4.1 Twf enillion cyfartalog.....	9
A4.2 Cyfraddau twf enillion gwahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon	12
A4.3 Twf enillion gwahanol ar frig a gwaelod y dosbarthiad incwm.....	14
A4.4 Cynyddu gwahanol drothwyon bandiau treth by 10%	17
A5. Atodiad Methodolegol 5: Cyfyngiadau	23
A5.1 Modelu'r AGB.....	23
A5.2 Modelu treth incwm	23
A6. Atodiad Methodolegol 6 : Cyfrifiadau technegol AGB	25
A6.1 Diffiniadau a nodiant	25
A6.2 Y dull Mynegai Fesul Pen.....	25
A6.3 Y dull cymharol	26
A6.4 Effaith net ar y gyllideb.....	26
A7. Atodiad Methodolegol 7: Ymateb ymddygiadol a referiw ôl-ymddygiadol amcangyfrifedig	27
A7.1 Ymateb ymddygiadol ar y ffin rhyngdorri.....	27
A7.2 Ymateb ymddygiadol ar y ffin estynnol	28

A1. Atodiad Methodolegol 1: Sefydlu'r sylfaen dreth

Er mwyn rhagfynegi refeniw treth incwm Cymru hyd at 2029–30, rhaid yn gyntaf sefydlu'r sylfaen dreth. Gwneir hyn drwy ddiweddarau model presennol – sy'n seiliedig ar fodel treth incwm yr Alban gan Sefydliad Fraser of Allander – fel ei fod yn adlewyrchu'n gywir y system dreth Gymreig bresennol a'r system yn y dyfodol, ynghyd â phatrymau poblogaeth ac enillion Cymru. Crëwyd model tebyg ar gyfer refeniw treth incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer cyfrifiadau Addasiad i'r Grant Bloc (AGB).

A1.1 Newidiadau i'r boblogaeth a'r demograffeg

Diweddarir y model i ymgorffori [Rhagamcanion Poblogaeth Cenedlaethol diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), yn seiliedig ar amcangyfrifon canol-2022. Mae'r rhagamcanion hyn yn galluogi'r modelau i adlewyrchu tueddiadau demograffig disgwylidig dros gyfnod y rhagolygon. Caiff twf poblogaeth ei gymhwyso ar wahân i grwpiau oedran deg-mlynedd, gan alluogi'r model i adlewyrchu newidiadau yn faint a chyfansoddiad y boblogaeth oed-weithgar o'i chymharu â'r grwpiau nad ydynt yn oed-weithgar, sy'n ffactor pwysig wrth ragweld maint y sylfaen dreth yn y dyfodol.

A1.2 Rhagdybiaethau twf incwm

Cyfrifir am dwf incwm y gwahanol gwledydd drwy gynyddu enillion o sail-flwyddyn 2022, gan ddefnyddio cyfraddau twf enillion y DG a gyhoeddwyd yn [Economic and Fiscal Outlook mis Mawrth 2025](#) (EFO) y Swyddfa Cyfrifon Cyhoeddus (OBR). Ar gyfer incwm pensiwn ac incwm arall nad yw'n enillion, rydym yn defnyddio'r un cyfraddau twf ag a ddefnyddir ar gyfer yr Alban, gan gymhwyso rhagamcanion o [ragolygon economaidd a chyllidol mis Mai 2025](#) y Comisiwn Cyllidol Albanaidd.

A1.3 Cyfraddau a throthwyon treth

Mae'r model yn ymgorffori cyfraddau a throthwyon treth incwm a gyhoeddwyd yng [Nghyllideb Hydref 2024 Llywodraeth y DG](#)¹. Mae'r rhain yn cynnwys trothwyon gwastad hyd at 2028–29, ac yna eu diweddarau'n flynyddol yn unol â'r gyfradd chwyddiant ragdybiedig o 2%.

Mae Tabl A1.1 yn crynhoi'r trothwyon a ddefnyddir yn y model, tra bo Tabl A1.2 yn cyflwyno'r cyfraddau treth, gan gynnwys y gwahanol gyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru – drwy Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) – a Llywodraeth y DG.

A1.4 Graddnodi i ddata trethdalwyr

Yn olaf, rydym yn ail-raddnodi pwysau'r model i adlewyrchu nodweddion a dosbarthiad incwm trethdalwyr Cymru ar gyfer y model Cymreig. Ar gyfer ein model treth incwm

¹ Dyma oedd y cyhoeddiad diweddaraf oedd ar gael ar adeg y dadansoddiad.

Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn ail-raddnodi i ddata trethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar gyfer 2022–23, caiff y pwysau eu haddasu yn ôl band treth er mwyn cyfateb i'r derbyniadau treth incwm gwirioneddol. Ar gyfer blynyddoedd diweddarach (2023–24 i 2029–30), caiff y pwysau eu diweddarau yn unol â rhagolygon refeniw lefel-band OBR o EFO mis Mawrth 2025.

Tabl A1.1: Trothwyon treth incwm a ddefnyddir yn y model

	2023-24 – 2027-28	2028-29	2029-30
Lwfans Personol	Hyd at £12,570	Hyd at £ 12,820	Hyd at £13,080
Treth cyfradd sylfaenol	£12,571 - £50,270	£ 12,821 - £51,275	£13,081 - £ 52,301
Treth cyfradd uwch	£50,271- £125,140*	£51,276 - £125,640*	£52,302 - £126,160*
Treth cyfradd ychwanegol	Dros £125,141	Dros £125,641 *	Dros £126,161 *

* Caiff tapr cyfradd ychwanegol ei gymhwyso i incwm dros £100,000. Am bob £2 a enillir uwchlaw £100,000, ceir lleihad o £1 yn y Lwfans Personol di-dreth, e.e. £12,570 yn 2025–26. Bydd y Lwfans Personol yn sero pan fydd incwm net wedi'i addasu'n cyrraedd £100,000 ynghyd â dau waith gwerth y Lwfans Personol, h.y. £125,140 neu fwy yn 2025–26.

Ffynhonnell: [Cyllideb Hydref y DG](#) (Hydref 2024) a chyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander²

Tabl A1.2: Cyfraddau treth incwm a ddefnyddir yn y model

	Cyfanswm treth incwm	Cyfradd CTIC	Cyfradd Llywodraeth DG
Lwfans Personol	0%	0%	0%
Treth cyfradd sylfaenol	20%	10%	10%
Treth cyfradd uwch	40%	10%	30%
Treth cyfradd ychwanegol	45%	10%	35%

Ffynhonnell: [Cyllideb Hydref y DG](#) (Hydref 2024) a chyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander

² Noder bod y modelu ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau cyn cyhoeddi Cyllideb 2025, a wnaeth rai newidiadau i'r polisi trothwyon y tu hwnt i 2028–29. Byddai hyn yn newid y canlyniadau ychydig, ond ni fyddai maint cyffredinol na chyfeiriad y newidiadau i'r sefyllfa net yn cael eu heffeithio.

A2. Atodiad Methodolegol 2: Addasiad i'r Grant Bloc

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo effaith gyllidebol net newidiadau i Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) o dan wahanol fecanweithiau Addasiad i'r Grant Bloc (AGB). Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar sut y mae gwahanol ddulliau mynegeo yn effeithio ar sefyllfa cyllidebol Llywodraeth Cymru, ar sail ragolygon refeniw treth benodol.

O dan fframwaith cyllidol Cymru, mae'r AGB yn adlewyrchu'r refeniw a gollir gan Lywodraeth y DG o ganlyniad i ddatganoli treth incwm. Fel y disgrifiwyd yn Adran 2, mae sawl model ar gyfer yr AGB, ac mae gwahanol ddulliau'n awgrymu gwahanol lefelau o risg a budd gyllidol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cymhwyso pedwar amrywiad o fodelau AGB:

Datganoli llawn refeniw, cyfraddau a bandiau

- AGB sengl (trefniant presennol yr Alban)
- AGB fesul band

Datganoli rhannol

- AGB sengl
- AGB fesul band (y dull presennol yng Nghymru)

Yn ogystal â'r dulliau craidd hyn o gyfrifo'r AGB, mae gwahaniaethau hefyd ynghylch y modd y caiff twf poblogaeth ei drin.

A2.1 Mynegai Fesul Pen

O dan y dull mynegai fesul pen, caiff AGB Cymru ei gynyddu yn unol â thwf refeniw treth incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi'i addasu ar sail twf poblogaeth cymharol rhwng Cymru a'r ardal gymharu.

Yn ymarferol, mae'r dull mynegai fesul pen yn rhagdybio, pe na bai datganoli, y byddai refeniw treth incwm Cymru wedi esblygu ar yr un hynt fesul pen â refeniw yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Felly, mae unrhyw wahaniaeth rhwng refeniw Cymru a'r llwybr gwrth-ffaith hwn yn trosi'n uniongyrchol i enillion neu golledion i gyllideb Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae'r dull yn darparu meincnod wedi'i addasu ar sail poblogaeth ar gyfer asesu canlyniadau cyllidebol twf refeniw gwahanol yn sgil datganoli.

Gellir adnabod dau amrywiad gwahanol:

- IPC (AGB sengl) – lle caiff refeniw ei fynegio ar y lefel gyffredinol.
- IPC (AGB fesul band) – lle caiff refeniw ym mhob band treth incwm ei fynegio ar wahân cyn cael ei gronni.

Er bod y dull Mynegai Fesul Pen yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr Alban, nid yw'n cael ei fodelu yn yr adroddiad hwn. Mae'r Institute for Fiscal Studies un nodi y gellir cyfrifo Mynegai Fesul Pen gan ddefnyddio hafaliadau amgen, ac mae'r amrywiad methodolegol hwn yn cyfiawnhau ei eithrio er mwyn cynnal cysondeb ar draws y modelau a fabwysiadwyd yma.³

A2.2 Y Dull Cymharol⁴

O dan y dull cymharol, caiff AGB Cymru ei gynyddu yn unol â thwf yn y sylfaen treth incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi'i addasu gan ffactor cymharoldeb.

Eto, caiff dau amrywiad eu adnabod:

- Cymharol (AGB sengl)
- Cymharol (AGB fesul band)

Mae'r ddau amrywiad hyn o'r dull cymharol yn cael eu defnyddio drwy'r adroddiad i gyfrifo'r canlyniadau.

A2.3 Y dull modelu a chyfaddawdau

Er bod y ddau ddull yn mynegeo AGB yn ôl datblygiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r dull mynegai fesul pen yn darparu meincnod refeniw wedi'i addasu am boblogaeth, tra bod y dull cymharol yn cysylltu'r addasiad yn fwy uniongyrchol â newidiadau yn y sylfaen dreth incwm ac yn ei dosbarthiad. O ganlyniad, mae'r ddau ddull yn awgrymu lefelau gwahanol o amlygiad i dwf poblogaeth, sy'n arwain at ganlyniadau cyllidebol gwahanol dros amser.

Cafodd yr holl senarios eu modelu gan ddefnyddio'r dull cymharol ar gyfer cyfrifo'r AGB. Pe bai'r dull mynegai fesul pen yn cael ei ddefnyddio yn ei le, byddai'r effeithiau'n fwy cadarnhaol i Lywodraeth Cymru pe bai poblogaeth Cymru yn tyfu'n arafach na phoblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel sydd wedi bod yn gyffredinol yn ddiweddar.

Un o'r prif benderfyniadau methodolegol yn y dadansoddiad hwn yw a ddylid cymhwyso mynegeo AGB ar y lefel agoredig neu ar wahân i bob band treth incwm. Pan gaiff y cyfrifiadau eu gwneud fesul band, caiff y cyfraddau twf sy'n gymwys i drethdalwyr cyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol eu cymhwyso ar wahân ac yna eu hychwanegu at ei gilydd i gael cyfanswm yr AGB.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig oherwydd gall newidiadau yn nosbarthiad trethdalwyr ar draws bandiau incwm effeithio ar dwf refeniw cyffredinol. O ganlyniad,

³ Gweler <https://ifs.org.uk/publications/wales-dont-always-see-scotland-adjusting-welsh-block-grant-after-tax-devolution>

⁴ Defnyddir y term "dull cymharol" i gyfeirio at amrywiaeth o fethodolegau cysylltiedig ond nid union yr un fath ar gyfer amcangyfrifo'r AGB.

gall yr amrywiadau AGB sengl a lefel-band o'r un dull mynegeo gynhyrchu canlyniadau wahanol, hyd yn oed pan fyddant yn seiliedig ar gyfanswm refeniw tebyg.

Cyflwynir y ddau ddull er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o sut mae mecanweithiau mynegeo amgen yn gweithredu yn ymarferol. Mae'r canlyniadau AGB sengl yn cynnig golwg symlach sy'n addas ar gyfer adrodd lefel-uchel, tra mae'r canlyniadau fesul band yn rhoi mewnwelediad ychwanegol i'r ffynonellau o wahaniaeth rhwng y dulliau.

Gweler Atodiad Methodolegol 6 am ragor o wybodaeth am y cyfrifiadau a wnaed.

A3. Atodiad Methodolegol 3: Canlyniadau sylfaenol statig

Mae ein model yn cynhyrchu set o amcangyfrifon refeniw llinell-sylfaen, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau twf poblogaeth ac enillion, a'r cyfraddau a'r trothwyon treth incwm a gyflwynir yn Atodiad Methodolegol 1. Ystyrir y rhain fel ein senario canolog. Cyflwynir canlyniadau o senarios amgen – sy'n addasu'r prif ragdybiaethau hyn – yn Atodiad Methodolegol 4.

Mae Tabl A3.1 yn adrodd cyfanswm y rhagolwg refeniw treth incwm llinell-sylfaen fesul band ac yn dangos sut y caiff y refeniw hyn eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru (trwy CTIC) a Llywodraeth y DG.

Yn 2026–27, rhagwelir y bydd cyfanswm refeniw treth incwm yn cyrraedd £9 biliwn, gyda thua 70% ohono'n cael ei godi o'r band cyfradd sylfaenol. O'r cyfanswm hwn, disgwylir i tua £4 biliwn ddod i Lywodraeth Cymru, a £5 biliwn i Lywodraeth y DG. Erbyn 2029–30, rhagwelir y bydd y refeniw cyfanswm yn codi i £10 biliwn, gyda thua £4 biliwn yn dod i Lywodraeth Cymru a £6 biliwn i Lywodraeth y DG.

Tabl A3.1: Cyfanswm y refeniw treth o'r senario llinell-sylfaen a dyraniad y refeniw i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Cyfanswm Refeniw Treth				
2026-27	6,186	2,127	581	8,894
2027-28	6,417	2,262	616	9,294
2028-29	6,638	2,307	650	9,595
2029-30	6,888	2,371	687	9,946
Refeniw CTIC				
2026-27	3,093	532	129	3,754
2027-28	3,208	565	137	3,911
2028-29	3,319	577	144	4,040
2029-30	3,444	593	153	4,189
Refeniw Llywodraeth DG				
2026-27	3,093	1,595	452	5,140
2027-28	3,208	1,696	479	5,384
2028-29	3,319	1,730	506	5,555
2029-30	3,444	1,779	535	5,757

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A3.2: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o'i chymharu â dim datganoli

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
	Effaith net			
2026-27	313	177	445	907
2027-28	353	203	513	1,023
2028-29	368	210	525	1,066
2029-30	382	214	528	1,109

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

Mae Tabl A3.2 yn cyflwyno amcangyfrifon o'r gwahaniaeth rhwng referniw treth incwm Cymru a'r AGB o dan y model rhannol ddatganoledig a'r model datganoli llawn, o'i gymharu â senario heb unrhyw ddatganoli treth incwm. Ceir y canlyniadau ar sail AGB sengl ac ar sail fesul band. O dan y model rhannol ddatganoledig, mae'r effaith net AGB sengl yn cynyddu o £177 miliwn yn 2026–27 i £214 miliwn erbyn 2029–30, tra bod yr amcangyfrifon fesul band cyfatebol yn codi o £313 miliwn i £382 miliwn dros yr un cyfnod. O dan y model datganoli llawn, mae'r effaith net gydag AGB sengl yn cynyddu o £445 miliwn yn 2026–27 i £528 miliwn erbyn 2029–30. Mae'r amcangyfrifon gydag AGB fesul band yn sylweddol uwch drwy gydol y cyfnod rhagolygon, gan gynyddu o £907 miliwn i £1,109 miliwn dros yr un cyfnod.

Mae'r canlyniadau'n dangos yn gyson effeithiau net mwy o dan AGB fesul band o gymharu ag AGB sengl, a chanlyniadau'n sylweddol uwch o dan ddatganoli llawn o gymharu â'r model rhannol ddatganoledig. Fodd bynnag, mae'r proffil dros amser yn gymharol sefydlog, gyda chynnydd graddol sy'n adlewyrchu newidiadau cynyddol yn y sylfaen dreth yn ogystal â'r effaith fwy o ran rhewi trothwyon, sydd wedi'u cynnwys yn y llinell sylfaen.

A4. Atodiad Methodolegol 4: Dadansoddiad senarios

Cynulwyd nifer o senarios i asesu sensitifrwydd refeniw treth incwm i newidiadau mewn twf enillion ac i bolisiau treth incwm amgen. Mae'r pedwar senario cyntaf yn archwilio gwahanol gyfraddau twf enillion — ar draws y dosbarthiad cyfan ac ar bwyntiau penodol oddi mewn iddo. Wedyn modelwyd tair senario polisi lle caiff y trothwyon cyfradd treth eu cynyddu fesul band treth.

Caiff pob senario ei adeiladu drwy amrywio un paramedr yn unig, gan gadw'r holl ragdybiaethau eraill yn gyson â'r llinell sylfaen. Mae'r holl ganlyniadau a gyflwynir yn y bennod hon yn dangos y gwahaniaeth yn y refeniw treth a godir yng Nghymru — ar ôl ystyried ymatebion ymddygiadol — o'i gymharu â'r senario llinell sylfaen. Gweler Atodiad Methodolegol 7 am ragor o wybodaeth am y rhagdybiaethau ymddygiadol a'r fethodoleg.

A4.1 Twf enillion cyfartalog

Modelwyd effaith twf uwch ac is mewn enillion cyfartalog ar y refeniw treth incwm a godir yng Nghymru. Y ddau senario a fodelwyd yw:

- **Senario enillion 1:** twf enillion uwch ar draws y dosbarthiad incwm
- **Senario enillion 2:** twf enillion is ar draws y dosbarthiad incwm

Mae Tabl A4.1 yn crynhoi'r rhagdybiaethau a ddefnyddir ar gyfer y senarios hyn. Mae'r senario llinell sylfaen yn defnyddio rhagolwg twf enillion cyfartalog y DGU gan OBR, fel a gyflwynir yn Atodiad Methodolegol 3.

Tabl A4.1: Rhagdybiaethau cyfradd twf enillion cyfartalog a ddefnyddir yn y dadansoddiad senarios

	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Senario llinell sylfaen	2.2%	2.1%	2.3%	2.5%
Twf enillion uwch	3.2%	3.1%	3.3%	3.5%
Twf enillion is	1.2%	1.1%	1.3%	1.5%

A4.1.1 Senario enillion 1: twf enillion uwch ar draws y dosbarthiad incwm

Mae canlyniadau'r senario twf enillion uwch yn cael eu dangos yn Nhablau A4.2 ac A4.3 isod. Mae twf enillion uwch yn arwain at effaith refeniw gadarnhaol sy'n cynyddu dros gyfnod yr rhagolygon. Tua 70% o'r refeniw ychwanegol dros y cyfnod hwn sy'n cael ei gynhyrchu gan refeniw treth o'r band cyfradd uwch, gan fod mwy o drethdalwyr yn symud i'r band treth uwch o ganlyniad i gyflogau'n cynyddu o ganlyniad i twf cyflymach.

Tabl A4.2: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 1: twf enillion uwch

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	4	23	4	31
2027-28	8	48	8	64
2028-29	16	70	14	100
2029-30	20	99	18	136
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	93	546	301	940
2027-28	191	1,092	650	1,934
2028-29	255	1,624	1,074	2,953
2029-30	237	2,187	1,573	3,997

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.3: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 1 o'i gymharu â'r llinell sylfaen

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	14	-1	10	57
2027-28	29	-3	22	120
2028-29	50	0	33	191
2029-30	71	0	44	272

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan senario 1, mae'r effaith net ôl-ymddygiad ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru yn amrywio'n sylweddol ar draws y gwahanol ddulliau modelu ac yn esblygu dros amser. Ar gyfer y model rhannol ddatganoledig, mae'r effaith ôl-ymddygiad o'r AGB sengl yn fach drwy gydol y cyfnod rhagolygon, gan amrywio rhwng -£3 miliwn a £0 miliwn rhwng 2026-27 a 2029-30. Yn groes i hynny, mae'r amcangyfrifon fesul band yn gadarnhaol ym mhob blwyddyn, gan godi o £14 miliwn yn 2026-27 i £71 miliwn erbyn 2029-30. Gwelir patrwm tebyg o dan y model datganoli llawn, er bod graddfa'r effeithiau'n fwy. Mae'r effaith ôl-ymddygiad AGB sengl yn cynyddu o £10 miliwn yn 2026-27 i £44 miliwn yn 2029-30, tra bod yr amcangyfrifon fesul band yn codi o £57 miliwn i £272 miliwn dros yr un cyfnod. Mae'r bwlch cynyddol hwn yn adlewyrchu'r cyfuniad o amlygiad llawn i'r refeniw a'r hyn a elwir yn draul treth, lle caiff trethdalwyr eu llusgo i fandiau treth uwch sydd â phwysoliad is o dan y dull AGB fesul band.

A4.1.2 Senario enillion 2: twf enillion is ar draws y dosbarthiad incwm

Mae Tablau A4.4 ac A4.5 yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer y senario twf enillion is. Yn yr achos hwn, mae cyfanswm y refeniw yn gostwng dros gyfnod y rhagolygon. Yn wahanol

i'r senario blaenorol, tua 60% o'r colled refeniw dros y cyfnod hwn sy'n dod o refeniw'r band cyfradd sylfaenol, gyda 30% yn deillio o golledion refeniw'r band cyfradd uwch.

Tabl A4.4: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 2: twf enillion is

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	-26	-13	-3	-42
2027-28	-47	-29	-7	-82
2028-29	-74	-43	-9	-127
2029-30	-100	-57	-15	-171
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	-421	-350	-330	-1,100
2027-28	-888	-687	-673	-2,248
2028-29	-1,330	-1,037	-1,049	-3,417
2029-30	-1,830	-1,347	-1,482	-4,659

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.5: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 2

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	-15	-4	-11	-44
2027-28	-26	-6	-21	-88
2028-29	-42	-10	-31	-135
2029-30	-56	-13	-40	-185

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan senario 2, mae'r effaith net ôl-ymddygiad ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru yn negyddol ar draws pob dull modelu a thrwy gydol y cyfnod rhagolygon, gyda maint yr effaith yn cynyddu'n raddol dros amser. Ar gyfer y model rhannol ddatganoledig, mae effaith yr AGB sengl yn gymedrol ond yn gyson negyddol, gan waethygu o -£4 miliwn yn 2026-27 i -£13 miliwn erbyn 2029-30. Mae'r amcangyfrifon cyfatebol fesul band yn fwy o ran maint absoliwt, gan ostwng o -£15 miliwn i -£56 miliwn dros yr un cyfnod, sy'n dangos bod ymatebion ymddygiadol a dosbarthiadol yn ehangu'r effaith gyllidol o'i chymharu â'r AGB sengl. Gwelir patrwm tebyg ond fwy amlwg o dan y model datganoli llawn. Mae'r effaith net gydag AGB sengl yn gostwng o -£11 miliwn yn 2026-27 i -£40 miliwn erbyn 2029-30, tra bod yr amcangyfrifon fesul band yn dirywio'n llawer mwy, gan gyrraedd -£185 miliwn erbyn diwedd y cyfnod rhagolygon. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon AGB sengl a'r rhai fesul band yn adlewyrchu llai o draul treth o'i gymharu â'r llinell sylfaen, sy'n golygu bod mwy o dreth yn cael ei thalu ar y band cyfradd sylfaenol, sydd â phwysoliad uwch o dan y dull AGB fesul band.

A4.2 Cyfraddau twf enillion gwahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon

Archwilir nesaf sut mae newidiadau mewn twf enillion yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn effeithio ar refeniw treth incwm. Modelwyd dau senario:

- **Senario enillion 3:** twf enillion uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon o'i gymharu â Chymru.
- **Senario enillion 4:** twf enillion is yn Lloegr a Gogledd Iwerddon o'i gymharu â Chymru.

Rydym yn defnyddio'r un cyfraddau twf a gyflwynir yn A4.1 ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, o'u cymharu â'r cyfraddau llinell sylfaen ar gyfer Cymru. Mae Tablau A4.6 hyd A4.9 yn cyflwyno canlyniadau'r senarios hyn. Yn y ddau achos, ni newidir y refeniw o CTIC o gymharu â'r senario sylfaen; dim ond y refeniw uwch (senario 3) neu is (senario 4) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n newid.

Tabl A4.6: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 3: twf enillion uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

<i>Pob ffigwr mewn £m</i>	<i>Refeniw cyfradd treth sylfaenol</i>	<i>Refeniw cyfradd treth uwch</i>	<i>Refeniw cyfradd treth ychwanegol</i>	<i>Cyfanswm Refeniw Treth</i>
Refeniw CTIC				
2026-27	0	0	0	0
2027-28	0	0	0	0
2028-29	0	0	0	0
2029-30	0	0	0	0
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	93	546	301	940
2027-28	191	1,092	650	1,934
2028-29	255	1,624	1,074	2,953
2029-30	237	2,187	1,573	3,997

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.7: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 3

<i>Pob ffigwr mewn £m</i>	<i>Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band</i>	<i>Model B: datganoli rhannol, AGB sengl</i>	<i>Model C: datganoli llawn, AGB sengl</i>	<i>Model D: datganoli llawn, AGB fesul band</i>
2026-27	-17	-32	-107	-61
2027-28	-34	-66	-221	-123
2028-29	-51	-100	-341	-184
2029-30	-64	-136	-469	-242

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan senario enillion 3, mae'r effaith net ôl-ymddygiad ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru yn negyddol ar draws pob model o ddatganoli, gyda'r gwerthoedd negyddol yn dwysáu dros gyfnod yr rhagolygon. O dan y model datganoli presennol (model A, gydag AGB fesul band), mae'r effaith yn -£17 miliwn yn 2026-27, gan godi i -£64 miliwn yn 2029-30. Mae model B (AGB sengl) yn gysylltiedig ag effaith negyddol tua dwywaith mor fawr (-£32 miliwn yn 2026-27, gan godi i -£136 miliwn yn 2029-30). Adlewyrchir yr un patrwm o dan ddatganoli llawn, gyda model D (fesul band) yn gwaethygu'r sefyllfa net o £61 miliwn yn 2026-27 (gan godi i £242 miliwn erbyn 2029-30), o'i gymharu â model C (AGB sengl), sy'n dangos -£107 miliwn yn 2026-27 a -£469 miliwn erbyn 2029-30. Mae'r effaith fawr ar y modelau AGB sengl yn adlewyrchu'r ffaith bod incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhoi mwy o refeniw treth, yn enwedig oherwydd incwm uchel yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Mae systemau AGB fesul band yn cyfyngu ar faint o'r effaith hon sy'n trosglwyddo i sefyllfa net Cymru, yn wahanol i'r systemau AGB sengl.

Tabl A4.8: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 4: twf enillion is yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	0	0	0	0
2027-28	0	0	0	0
2028-29	0	0	0	0
2029-30	0	0	0	0
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	-421	-350	-330	-1,100
2027-28	-888	-687	-673	-2,248
2028-29	-1,330	-1,037	-1,049	-3,417
2029-30	-1,830	-1,347	-1,482	-4,659

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.9: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 4

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	27	37	107	74
2027-28	56	76	218	151
2028-29	85	116	332	228
2029-30	115	158	452	307

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

Mae senario enillion 4 bron yn wrthwyneb uniongyrchol i senario enillion 3. Mae sefyllfa net ôl-ymddygiad Llywodraeth Cymru yn gwella ar draws pob model o ddatganoli, gyda'r

cynnydd mwyaf yn dod o'r systemau AGB sengl (modelau B a C). Yn model B, mae'r sefyllfa net yn gwella o £37 miliwn yn 2026–27 i £158 miliwn erbyn 2029–30. O'i gymharu â hyn, dim ond £27 miliwn yw'r gwelliant yn 2026–27 o dan y system rhannol ddatganoledig fesul band (model A), gan godi i £115 miliwn erbyn 2029–30. Ar gyfer systemau datganoli llawn, mae'r cynnydd yn y sefyllfa net yn model C (AGB sengl) yn £107 miliwn yn 2026–27 ac yn £452 miliwn erbyn 2029–30, o'i gymharu â £74 miliwn yn 2026–27 ac £307 miliwn erbyn 2029–30 ar gyfer model D (AGB fesul band).

Mae'r gwahaniaeth rhwng AGB sengl ac AGB fesul band yn llai o ran cymhareb yn senario enillion 4 (twf enillion is yn Lloegr a Gogledd Iwerddon) nag yn senario 3 (twf uwch). Mae hyn oherwydd bod y system AGB fesul band yn rhoi pwysau is ar dwf ar frig y dosbarthiad incwm, ac felly'n amddiffyn rhag twf enillion uwch. I'r gwrthwyneb, mae twf enillion is yn golygu bod incwm yn cael ei ganoli mewn bandiau â phwysau uwch, gan arwain at ganlyniad llai cadarnhaol o dan y system fesul band.

A4.3 Twf enillion gwahanol ar frig a gwaelod y dosbarthiad incwm

Archwilir nesaf sut mae newidiadau yn nhwf enillion cymharol unigolion ar incwm isel ac ar incwm uchel yn effeithio ar refeniw treth incwm. Rydym yn modelu dau senario:

- **Senario enillion 5:** twf cyflymach ar frig y dosbarthiad incwm ac arafach ar waelod y dosbarthiad
- **Senario enillion 6:** twf arafach ar frig y dosbarthiad incwm a thwf cyflymach ar waelod y dosbarthiad

Diffinnir gwaelod a brig y dosbarthiad fel y 25% isaf a 25% uchaf o'r dosbarthiad incwm yn 2022, fel y'u hadroddir yn yr Annual Survey of Hours and Earnings. Mae hyn yn cyfateb i enillion o dan £17,850 (25% isaf) ac uwchlaw £37,702 (25% uchaf). Caiff unigolion eu neilltuo i ganrannau yn seiliedig ar eu hincwm yn 2022–23. Caiff yr holl incwm ei ddiweddarau gan yr un gyfradd twf rhwng 2022–23 a 2025–26, ac yna caiff ei ddiweddarau gan y cyfraddau twf sy'n briodol i'w canradd perthnasol o 2026–27 ymlaen.

Mae Tabl A4.10 isod yn amlinellu ein rhagdybiaethau cyfradd twf yn seiliedig ar ganrannau ar gyfer y ddau senario hyn. Mae'r llinell sylfaen unwaith eto yn defnyddio cyfraddau twf enillion y DG gyfan gan OBR, fel y'u cyflwynir yn Atodiad Methodolegol 3.

Tabl A4.10: Rhagdybiaethau cyfradd twf enillion cyfartalog yn ôl canradd incwm

		2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Senario llinell sylfaen		2.2%	2.1%	2.3%	2.5%
Senario enillion 5	25% uchaf	3.2%	3.1%	3.3%	3.5%
	50% canolog	2.2%	2.1%	2.3%	2.5%
	25% isaf	1.1%	1.2%	1.3%	1.5%
Senario enillion 6	25% uchaf	1.1%	1.2%	1.3%	1.5%
	50% canolog	2.2%	2.1%	2.3%	2.5%
	25% isaf	3.2%	3.1%	3.3%	3.5%

A4.3.1 Senario enillion 5: Twf cyflymach ar frig y dosbarthiad incwm ac arafach ar waelod y dosbarthiad

Tabl A4.11: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 5: twf cyflymach ar frig y dosbarthiad incwm ac arafach ar waelod y dosbarthiad

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	-33	23	4	-7
2027-28	-71	47	8	-15
2028-29	-105	69	14	-22
2029-30	-147	97	18	-33
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	-715	519	302	107
2027-28	-1,494	1,030	653	189
2028-29	-2,354	1,516	1,079	241
2029-30	-3,378	2,018	1,579	220

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Mae Tabl A4.11 yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer senario 5: twf enillion cyflymach ar gyfer unigolion ar incwm uwch a thwf arafach ar gyfer unigolion ar incwm isel. Amcangyfrifir y bydd refeniw CTIC yn gostwng £7 miliwn yn 2026–27, a £33 miliwn erbyn 2029–30, oherwydd bod colledion yn refeniw'r band cyfradd sylfaenol yn fwy na'r cynnydd yn refeniw'r band cyfradd uwch a'r band cyfradd ychwanegol.

Mae Tabl A4.12 yn cyflwyno'r effaith net ar sefyllfa Llywodraeth Cymru. Yn y senario hwn, mae'r modelau fesul band (A a D) yn gysylltiedig â chynnydd yn y sefyllfa net, tra bod y systemau AGB sengl (B a C) yn gysylltiedig â gostyngiad yn y sefyllfa net. Mae hyn oherwydd bod refeniw Lloegr a Gogledd Iwerddon yn tyfu'n gryf yn y band cyfradd ychwanegol — mae'r systemau AGB fesul band yn lliniaru'r effaith hon, ond nid yw'r systemau AGB sengl yn gwneud hynny.

Tabl A4.12: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 5

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	12	-10	-17	52
2027-28	24	-22	-33	111
2028-29	42	-30	-51	177
2029-30	61	-41	-71	254

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

A4.3.2 Senario enillion 6: Twf arafach ar frig y dosbarthiad incwm a thwf cyflymach ar waelod y dosbarthiad

Tabl A4.13: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario enillion 6: twf arafach ar frig y dosbarthiad incwm a thwf cyflymach ar waelod y dosbarthiad

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	11	-12	-3	-4
2027-28	31	-28	-7	-4
2028-29	46	-42	-9	-6
2029-30	66	-56	-15	-5
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	408	-338	-330	-260
2027-28	837	-658	-672	-493
2028-29	1,342	-997	-1,048	-703
2029-30	1,868	-1,288	-1,481	-902

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Mae canlyniadau'r senario gwrthgyferbyniol — twf enillion cyflymach ar gyfer unigolion ar incwm isel a thwf arafach ar gyfer unigolion ar incwm uchel — yn cael eu dangos yn Nhabl A4.13. O dan y senario hwn, amcangyfrifir y bydd refeniw CTIC yn gostwng £4–5 miliwn ar draws cyfnod y rhagolygon.

Tabl A4.14: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario enillion 6

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	-13	5	16	-40
2027-28	-22	13	35	-80
2028-29	-37	18	53	-125
2029-30	-50	26	75	-173

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor.

O dan senario 6, mae'r canlyniadau cyllidol yn gwahanu'n sylweddol yn dibynnu a yw'r AGB yn cael ei gyfrifo ar sail un ffigur agregedig neu fesul band incwm. O dan ddatganoli rhannol, mae'r dull AGB sengl yn dangos effaith net gadarnhaol fach ond cynyddol — o £5 miliwn yn 2026–27 i £26 miliwn erbyn 2029–30. Fodd bynnag, mae'r dull AGB fesul band yn cynhyrchu sefyllfa sy'n gyson negyddol, gan waethygu o –£13 miliwn i –£50 miliwn. Mae'r gwahaniaeth hwn yn codi oherwydd bod y fethodoleg fesul band yn rhoi pwysau gwahanol ar draws bandiau incwm. Mae'r gwahaniaeth yn fwy amlwg fyth o dan ddatganoli llawn. Wrth ddefnyddio AGB sengl, mae'r effaith net yn cynyddu o £16 miliwn

i £75 miliwn dros y cyfnod. Yn groes i hyn, mae'r dull fesul band yn cael effaith negyddol sylweddol sy'n gwaethygu'n barhaus, gan gyrraedd –£173 miliwn erbyn 2029–30.

Gyda'i gilydd, mae senarios 5 a 6 yn dangos y ffaith bod y modelau fesul band (A a D) yn amddiffyn sefyllfa net Cymru rhag twf uwch ar frig y dosbarthiad incwm, ond yn cynyddu'r amlygiad i dwf enillion cryfach ar waelod y dosbarthiad.

A4.4 Cynyddu gwahanol drothwyon bandiau treth by 10%

Hefyd yn modelwyd tair senario polisi i asesu effaith cynyddu gwahanol drothwyon treth incwm 10% ar refeniw treth incwm. Mae'r senarios hyn yn dangos sut mae symud y pwyntiau lle mae unigolion yn symud rhwng bandiau treth yn effeithio ar y derbyniadau cyffredinol, a sut mae'r newidiadau hynny'n cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Y senarios yw:

- Senario polisi 1: cynyddu'r trothwy cyfradd uwch 10%
- Senario polisi 2: cynyddu'r Lwfans Personol 10% a chynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol er mwyn ymestyn y tapr LP
- Senario polisi 3: cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol 10%

Mae Tabl A4.15 yn crynhoi'r trothwyon a ddefnyddir ym mhob un o'r senarios hyn.

Tabl A4.15: Rhagdybiaethau trothwyon

		2026-27	2027-28	2028-29	2029-30
Senario llinell-sylfaen	Lwfans personol	£12,570	£12,570	£12,820	£13,080
	Trothwy cyfradd uwch	£50,270	£50,270	£51,275	£52,301
	Trothwy cyfradd ychwanegol	£125,140	£125,140	£125,640	£126,160
Senario polisi 1: cynyddu'r trothwy cyfradd uwch 10%	Lwfans personol	£12,570	£12,570	£12,820	£13,080
	Trothwy cyfradd uwch	£55,297	£55,297	£56,403	£57,531
	Trothwy cyfradd ychwanegol	£125,140	£125,140	£125,640	£126,160
Senario polisi 2: cynyddu'r Lwfans Personol 10% ac ymestyn y tapr LP	Lwfans personol	£13,827	£13,827	£14,102	£14,388
	Trothwy cyfradd uwch	£50,270	£50,270	£51,275	£52,301
	Trothwy cyfradd ychwanegol	£127,654	£127,654	£128,204	£128,776
Senario polisi 3: cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol 10%	Lwfans personol	£12,570	£12,570	£12,820	£13,080
	Trothwy cyfradd uwch	£50,270	£50,270	£51,275	£52,301
	Trothwy cyfradd ychwanegol	£137,654	£137,654	£138,204	£138,776

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

A4.4.1 Senario polisi 1: cynyddu'r trothwy cyfradd uwch 10%

Mae Tabl A4.16 yn cyflwyno'r amcangyfrifon ar gyfer senario polisi 1, lle caiff y trothwy cyfradd uwch ei gynyddu 10 y cant. Mae cynyddu'r trothwy yn symud cyfran fwy o'r incwm trethadwy o'r band cyfradd uwch i'r band cyfradd sylfaenol, gan leihau rhwymedigaethau treth i drethdalwyr cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol.

Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd refeniw CTIC yn cynyddu tua £60–£70 miliwn y flwyddyn yn dilyn y cynnydd yn y trothwy. Mae derbyniadau'r band cyfradd sylfaenol yn cynyddu wrth i fwy o incwm gael ei drethu ar y gyfradd is, gan wrthbwysu'r gostyngiad yn refeniw'r band cyfradd uwch. Ceir cynnydd bach yn y derbyniadau o'r band cyfradd ychwanegol, sy'n adlewyrchu ymatebion ymddygiadol i gyfraddau treth ymylol is, gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn cynyddu lefel gweithgarwch gwaith ymhlith rhai trethdalwyr cyfradd ychwanegol.

Tabl A4.16: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario polisi 1: cynyddu'r trothwy cyfradd uwch 10%

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	173	-115	0	58
2027-28	188	-124	0	64
2028-29	189	-126	0	64
2029-30	197	-131	0	67
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	5,036	-3,455	-192	1,390
2027-28	5,299	-3,620	-201	1,478
2028-29	5,410	-3,704	-213	1,492
2029-30	5,620	-3,836	-229	1,555

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.17: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario polisi 1

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	-86	11	20	-258
2027-28	-88	14	19	-272
2028-29	-91	13	20	-279
2029-30	-95	14	21	-290

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan ddatganoli rhannol, mae'r AGB sengl yn dangos effaith net fach a sefydlog, tua £11–£14 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu strwythur CTIC fel addasiad gyfradd

gwastad: mae effaith newidiadau trothwy ar refeniw yn fechan pan un ffactor cymharoldeb sydd yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, pan gyfrifir yr AGB fesul band incwm, mae'r sefyllfa gyllidol yn dod yn un sy'n gyson negyddol, gan gyrraedd tua -£95 miliwn erbyn 2029–30. Mae hyn yn cael ei yrru gan y pwyso sydd ynghlwm wrth y dull fesul band. Mae gan y band cyfradd sylfaenol bwysoliad uwch, felly wrth i faint y band hwn gynyddu, mae mwy o refeniw yn disgyn o'i fewn, gan gynhyrchu effaith net negyddol o'i gymharu â'r system AGB sengl. Mae'r gwahaniaeth yn fwy o dan ddatganoli llawn. Gydag AGB sengl, mae'r effaith net yn parhau yn gadarnhaol ond yn gymedrol, tua £20 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, o dan AGB fesul band, mae'r sefyllfa yn sylweddol negyddol, gan gyrraedd tua -£290 miliwn erbyn diwedd y cyfnod rhagolygon. Mae refeniw sydd wedi'i ddatganoli'n llawn yn cael ei heffeithio fwy gan addasiadau lefel-band, sy'n golygu bod effeithiau dosbarthiadol yn rhyngweithio'n llawer cryfach â'r mecanwaith AGB.

A4.4.2 Senario polisi 2: cynyddu'r Lwfans Personol 10% ac ymestyn y tapr Lwfans Personol

Mae Tabl A4.18 yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer senario polisi 2, lle caiff y Lwfans Personol (LP) ei gynyddu 10%, ac mae'r trothwy cyfradd ychwanegol yn cael ei gynyddu i ymestyn y tapr ar y Lwfans Personol. Mae codi'r Lwfans Personol yn golygu bod cyfran fwy o incwm nad yw'n cael ei drethu, sy'n lleihau rhwymedigaethau treth i bob trethdalwr. Bydd cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol er mwyn ymestyn y tapr hefyd yn lleihau faint o dreth sy'n cael ei thalu ar y gyfradd ychwanegol gan unigolion ar incwm uchel. Dyma'r senario sydd â'r effaith fwyaf ar refeniw, gan ei fod yn effeithio ar bob trethdalwr, nid dim ond ar y rhai yn y ddau fand uchaf.

Amcangyfrifir y bydd refeniw CTIC yn gostwng £261 miliwn yn 2026–27, gan gynyddu i £287 miliwn erbyn 2029–30.

Prif achos y gostyngiad hwn yw refeniw'r band cyfradd sylfaenol, gan fod y cynnydd yn y Lwfans Personol yn lleihau swm yr incwm sy'n cael ei drethu ar y cyfradd sylfaenol ar draws y boblogaeth gyfan. Mae hefyd ychydig o ailddosbarthu rhwng refeniw'r band cyfradd uwch a'r band cyfradd ychwanegol, ynghyd â rhai effeithiau ymddygiadol bach.

Tabl A4.18: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario polisi 2: cynyddu'r Lwfans Personol 10% ac ymestyn y tapr LP

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	-261	5	-5	-261
2027-28	-270	5	-5	-269
2028-29	-278	6	-5	-277
2029-30	-287	6	-6	-287
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	-5,675	422	-402	-5,654
2027-28	-5,792	445	-422	-5,769
2028-29	-5,970	474	-451	-5,947
2029-30	-6,176	512	-488	-6,152

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.19: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario polisi 2

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	-25	-70	-196	-62
2027-28	-27	-73	-203	-67
2028-29	-28	-75	-208	-69
2029-30	-29	-78	-216	-73

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan senario polisi 2, mae'r effaith gyllidol yn negyddol ar draws pob model datganoli. O dan ddatganoli rhannol, mae'r AGB fesul band yn dangos colled gymedrol, yn amrywio rhwng -£25 miliwn a -£29 miliwn y flwyddyn. Pan gyfrifir yr AGB fel un ffigur sengl, fodd bynnag, mae hyn yn cynyddu o -£70 miliwn i -£78 miliwn y flwyddyn. Ceir patrwm tebyg ar gyfer y modelau datganoli llawn, lle mae cost flynyddol y polisi o ran sefyllfa net Cymru tua thair gwaith yn fwy o dan AGB sengl (£196 miliwn yn 2026-27, gan godi i £216 miliwn erbyn 2029-30) o'i gymharu ag AGB fesul band (£62 miliwn yn 2026-27, gan godi i £73 miliwn erbyn 2029-30).

Mae'r gwahaniaeth yn y sefyllfaoedd net yn cael ei yrru gan y ffaith bod AGB fesul band yn rhoi mwy o bwysau ar refeniw'r band cyfradd sylfaenol, lle nad oes fawr o wahaniaeth rhwng yr effaith gymharol yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae cyfanswm y refeniw ar sail CTIC yn cwmpo llai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon nag yng Nghymru oherwydd dosbarthiad sy'n rhoi mwy o refeniw treth, sy'n golygu bod y Lwfans Personol yn cael llai o effaith. Pan ddefnyddir AGB sengl, caiff hyn ei adlewyrchu mewn cwmp mwy yn y refeniw o dan CTIC nag yng nghyfanswm refeniw Cymru a Lloegr a

Gogledd Iwerddon ar sail CTIC, ac felly mae'n arwain at waethygiad mwy yn sefyllfa net Cymru.

A4.4.3 Senario polisi 3: cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol 10%

Mae Tabl A4.20 yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer senario polisi 3, sy'n cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol 10%. Mae hyn yn codi'r lefel incwm lle mae'r gyfradd ychwanegol (45%) yn dechrau cymhwyso, sy'n golygu bod llai o incwm yn cael ei drethu ar y gyfradd ychwanegol a mwy yn cael ei drethu ar y gyfradd uwch (40%).

Dim ond effaith net ymylol iawn y mae Llywodraeth Cymru yn ei phrofi ar refeniw, gan fod yr effeithiau refeniw bron yn cael eu gwrthbwysu'n llwyr rhwng y band cyfradd uwch a'r band cyfradd ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i dderbyn y 10c cyntaf o dreth ar bob punt o incwm sydd bellach yn cael ei drethu ar y cyfradd uwch (40%) yn hytrach na'r cyfradd ychwanegol (45%). Llywodraeth y DG sy'n wynebu'r golled mewn refeniw treth, gan fod y dreth ar y gweddill yn symud o 35c i 30c oherwydd y cynnydd yn y trothwy. Yr unig effaith ar refeniw Llywodraeth Cymru yw'r rhai sy'n codi o ymatebion ymddygiadol — ac mae'r rhain yn fach iawn.

Tabl A4.20: Gwahaniaeth yn y cyfanswm refeniw treth ôl-ymddygiad ac yn refeniw treth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG o senario polisi 3: cynyddu'r trothwy cyfradd ychwanegol 10%

Pob ffigwr mewn £m	Refeniw cyfradd treth sylfaenol	Refeniw cyfradd treth uwch	Refeniw cyfradd treth ychwanegol	Cyfanswm Refeniw Treth
Refeniw CTIC				
2026-27	0	25	-23	2
2027-28	0	27	-25	2
2028-29	0	28	-26	2
2029-30	0	30	-28	2
Treth Incwm NCND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)				
2026-27	0	2,103	-1,999	103
2027-28	0	2,214	-2,103	111
2028-29	0	2,322	-2,211	111
2029-30	0	2,471	-2,355	116

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander. Noder: efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl A4.21: Effaith net ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru o senario polisi 3

Pob ffigwr mewn £m	Model A: datganoli rhannol, AGB fesul band	Model B: datganoli rhannol, AGB sengl	Model C: datganoli llawn, AGB sengl	Model D: datganoli llawn, AGB fesul band
2026-27	-29	-2	11	-124
2027-28	-31	-3	12	-130
2028-29	-32	-2	13	-137
2029-30	-35	-2	14	-146

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Prifysgol Bangor

O dan senario polisi 3, mae'r effaith gyllidol yn gymharol fach o dan ddatganoli rhannol, ond mae'r gwahaniaethau'n fwy sylweddol pan gymhwysir datganoli llawn a thriniaeth AGB fesul band. O dan ddatganoli rhannol, mae'r AGB sengl yn cynhyrchu sefyllfa bron yn niwtral, gan amrywio rhwng -£2 miliwn a -£3 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod CTIC yn treth cyfradd gwastad. Pan gyfrifir yr AGB fesul band, mae'r sefyllfa net yn dod yn gymedrol negyddol, gan gyrraedd tua -£35 miliwn erbyn 2029-30. Fel yn y senarios blaenorol, mae pwyso lefel-band yn cynyddu sensitifrwydd i newidiadau ym maint y bandiau o'i gymharu â'r dull AGB sengl. O dan ddatganoli llawn, mae'r AGB sengl yn cynhyrchu effaith gadarnhaol gymedrol, gan godi'n raddol o £11 miliwn i £14 miliwn drwy'r cyfnod rhagolygon. Fodd bynnag, unwaith y caiff yr AGB ei gyfrifo fesul band, mae'r canlyniad yn dod yn sylweddol negyddol, gan gyrraedd -£146 miliwn erbyn 2029-30. Mae cyfuniad o amlygiad llawn i'r refeniw ac o bwysoliad uwch sy'n cael ei gymhwyso i fand ehangach yn arwain at effaith net fwy.

A5. Atodiad Methodolegol 5: Cyfyngiadau

A5.1 Modelu'r AGB

Mae cyfyngiad allweddol yn codi o'r dewis o ddull mynegeo ei hun. Mae gwahanol ddulliau'n awgrymu lefelau gwahanol o amlygiad i newid poblogaeth cymharol a thwf incwm rhwng Cymru a'r ardal gymharu, ac felly gallent gynhyrchu canlyniadau cyllidebol gwahanol hyd yn oed pan fo'r refeniw treth sylfaenol yn union yr un fath. Dylid dehongli'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel rhai sy'n dangos sensitifrwydd sefyllfa cyllidebol Llywodraeth Cymru i wahanol fecanweithiau mynegeo, yn hytrach na rhagolygon manwl o effeithiau cyllidebol yn y dyfodol. Mae'r modelu hefyd yn rhagdybio mai Lloegr a Gogledd Iwerddon fydd yn parhau i fod yn ardal gymharu datganoli treth incwm, yn unol â'r fframwaith cyllidol presennol. Byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol i strwythur datganoli neu i ddyluniad y fframwaith cyllidol yn gofyn i'r fethodoleg AGB gael ei hailystyried, a gallent newid goblygiadau cyllidebol datganoli treth incwm.

A5.2 Modelu treth incwm

Mae'r amcangyfrifon yn yr adroddiad hwn yn darparu rhagamcanion o refeniw treth incwm yn y dyfodol o dan ystod o senarios twf enillion a senarios polisi. Mae nifer o gyfyngiadau yn y modelu hwn, sy'n golygu y dylid dehongli'r rhagolygon refeniw fel dangosydd o raddfa bosibl y refeniw treth, yn hytrach na rhagfynegiadau pendant.

A5.2.1 Rhagdybiaethau'r model

Mae cyfyngiad canolog yn yr adansoddiad hwn yn ymwneud â'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r modelau treth incwm ar gyfer Cymru ac ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Un rhagdybiaeth allweddol yw twf enillion. Yn y ddau fodel, caiff enillion eu cynyddu o incwm llinell sylfaen 2022 gan ddefnyddio cyfraddau twf enillion y Swyddfa Cyfrifon Cyhoeddus (OBR) ar gyfer incwm a enillir, a chyfraddau twf Comisiwn Cyllidol yr Alban ar gyfer incwm pensiwn ac incwm arall. Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio bod y cyfraddau twf hyn yn gymwys yn unffurf i Gymru ac i Loegr a Gogledd Iwerddon fel rhanbarth cyfunol. Pe bai twf enillion yn yr ardaloedd hyn yn gwahanu'n sylweddol o'r cyfraddau a ragdybir, gallai refeniw treth incwm yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn rhagdybio bod twf poblogaeth ym mhob gwlad yn dilyn y rhagolygon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a ddefnyddir yn y modelau. Gallai newidiadau yn y dyfodol mewn patrymau mewnfudo neu gyfansoddiad demograffig — yn enwedig os ydynt yn canolbwyntio ymhlith y boblogaeth oed-weithgar — gael effaith sylweddol ar y sylfaen treth incwm ac felly ar y refeniw a godir.

Mae cyfyngiad pellach yn ymwneud ag ail-raddnodi pwysau'r model o 2023–24 ymlaen i ragolygon refeniw fesul band yr OBR. Mae'r graddnodi hwn yn rhagdybio bod dosbarthiad trethdalwyr a refeniw ar draws bandiau treth yn esblygu'n unol â'r rhagolygon hyn. Pe bai sioc economaidd sylweddol a fyddai'n newid cyfansoddiad bandiau treth neu ddosbarthiad rhwymedigaethau treth incwm, gallai refeniw yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ragamcanir yn y model.

A5.2.2 Rhagdybiaethau polisi

Mae'r rhagolygon treth incwm a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y polisi treth incwm fel yr oedd ar adeg y modelu. Felly mae'r llinell sylfaen yn adlewyrchu'r cyfraddau, y trothwyon, a'r paramedrau polisi oedd mewn grym bryd hynny. Byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol i bolisi treth incwm yn newid y llinell sylfaen y caiff effeithiau'r senarios eu mesur yn ei herbyn, ac yn effeithio ar yr amcangyfrifon o refeniw.

Mae'r risg hon eisoes wedi gwireddu i ryw raddau. Mae'r modelu'n seiliedig ar y polisi treth incwm a gyhoeddwyd yn Nghyllideb yr Hydref 2024. Ers hynny, cafodd polisi treth incwm ei ddiweddarau yn Nghyllideb yr Hydref 2025, gan ymestyn y rhewi trothwyon o 2028–29 i 2030–31. Gan nad yw'r model yn ymgorffori'r newid polisi diweddarach hwn, mae'r trothwyon llinell sylfaen yn y blynyddoedd olaf o'r cyfnod rhagolygon yn uwch nag y byddent o dan bolisi Tachwedd 2025. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd effeithiau refeniw y senarios yn y blynyddoedd olaf o'r cyfnod rhagolygon yn llai nag y byddent pe bai'r modelu'n defnyddio'r rhagdybiaethau polisi diweddaraf.

A5.2.3 Ymatebion ymddygiadol

Ffynhonnell arall o ansicrwydd yw'r rhagdybiaethau am ymatebion ymddygiadol i newidiadau mewn twf enillion neu i bolisi treth. Mae'r modelu'n ymgorffori rhagdybiaethau ynghylch ymatebion ar y mylon dwyseddol ac ymestynnol, gan ddefnyddio amrywiaeth o amcangyfrifon elastigedd incwm ar wahanol lefelau incwm.

Mae'r paramedrau hyn yn destun barn ac nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr ymatebion ymddygiadol a ragdybir yn y model yn cynrychioli'n llawn sut y bydd unigolion yn ymateb mewn gwirionedd. Pe bai'r ymatebion ymddygiadol gwirioneddol yn gryfach neu'n wannach na'r hyn a ragdybir, gallai'r refeniw treth incwm a godir wahaniaethu oddi wrth yr hyn a gyflwynir yn y dadansoddiad hwn.

A6. Atodiad Methodolegol 6 : Cyfrifiadau technegol AGB

Mae'r atodiad hwn yn darparu'r cyfrifiadau a ddefnyddir i ddeillio'r Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) a'r effaith gyllidebol net sy'n deillio o Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) o dan wahanol fecanweithiau mynegeo.

A6.1 Diffiniadau a nodiant

Defnyddir y nodiant canlynol i ddisgrifio'r cyfrifiadau:

- R_t^W : Refeniw treth incwm NCND Cymru yn y flwyddyn t
- R_t^{ENI} : Refeniw treth incwm NCND yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y flwyddyn t
- P_t^W : Poblogaeth Cymru yn y flwyddyn t
- P_t^{ENI} : Poblogaeth Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y flwyddyn t
- AGB_t : Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) yn y flwyddyn t
- TB_t^{ENI} : Cyfanswm refeniw treth incwm cymharol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y flwyddyn t
- t-1: Y flwyddyn ariannol flaenorol

A6.2 Y dull Mynegai Fesul Pen

O dan y dull mynegai fesul pen, caiff Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) ei gynyddu dros amser yn unol â thwf refeniw treth incwm yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi'i addasu i gyfrif am newid poblogaeth cymharol rhwng Cymru a'r ardal gymharu. Mae hyn yn adlewyrchu strwythur y fframwaith cyllidol Cymreig, lle mae Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ffurfio'r ardal gymharu nad yw'n ddarostyngedig i ddatganoli ar gyfer treth incwm.

Yn ffurfiol, gellir mynegi'r AGB o dan y dull IPC fel a ganlyn:

$$AGB_t = AGB_{t-1} \times \left(\frac{R_t^{ENI}/P_t^{ENI}}{R_{t-1}^{ENI}/P_{t-1}^{ENI}} \right) \times \left(\frac{P_t^W}{P_{t-1}^W} \right)$$

Mae'r hafaliad hwn yn diweddarau Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) y flwyddyn flaenorol yn unol â chyfradd twf refeniw treth incwm fesul pen yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan raddfa'r canlyniad yn ôl twf poblogaeth Cymru.

Yn yr amrywiad sengl o'r dull IPC, caiff y cyfrifiad hwn ei gymhwyso i gyfanswm refeniw treth incwm. Yn yr amrywiad fesul band, cymhwysir yr un dull ar wahân i bob band treth incwm (cyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol), ac yna cronni'r mesuriadau fesul band i gynhyrchu cyfanswm yr AGB. Mae gwahaniaethau rhwng canlyniadau AGB sengl ac AGB fesul band yn codi oherwydd newidiadau dros amser yn nosbarthiad trethdalwyr ac incwm ar draws bandiau.

Er bod y dull Mynegai Fesul Pen (IPC) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr Alban, nid yw'n cael ei fodelu yn yr adroddiad hwn. Nodwyd yr Institute for Fiscal Studies fod modd

cyfrifo IPC gan ddefnyddio hafaliadau amgen a felly, er mwyn cynnal cysondeb ar draws y modelau a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn, ni ddefnyddir y dull hwn.⁵

A6.3 Y dull cymharol

O dan y dull cymharol, caiff yr Addasiad i'r Grant Bloc (AGB) ei gynyddu yn unol â thwf yn y cyfanswm refeniw treth incwm cymharol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi'i addasu am gymharoldeb. Mae'r dull hwn yn cysylltu esblygiad yr AGB yn fwy uniongyrchol â newidiadau mewn incwm trethadwy, yn hytrach nag â thwf refeniw wedi'i addasu am boblogaeth.

Yn ffurfiol, gellir mynegi'r dull cymharol fel a ganlyn:

$$AGB_t = AGB_{t-1} \times \frac{TB_t^{ENI}}{TB_{t-1}^{ENI}}$$

Mae'r hafaliad hwn yn rhagdybio, pe na bai datganoli ar waith, y byddai refeniw treth incwm Cymru wedi esblygu yn unol â thwf cyfanswm refeniw treth incwm cymharol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, mae unrhyw wahaniaeth rhwng refeniw Cymru a'r AGB wedi'i fynegeo yn adlewyrchu gwahaniaethau ym mherfformiad a chyfansoddiad refeniw treth incwm Cymru o'i gymharu â'r ardal gymharu.

Fel gyda'r dull mynegai fesul pen, cymhwysir dau amrywiad o'r dull cymharol:

- Amrywiad sengl, lle caiff y cyfrifiad ei gymhwyso i'r cyfanswm refeniw treth incwm;
- Amrywiad fesul band, lle caiff y cyfrifiad ei gymhwyso ar wahân i bob band treth incwm cyn cael ei gronni, gan ganiatáu i newidiadau yn nosbarthiad incwm ar draws bandiau ddylanwadu ar gyfanswm yr AGB.

A6.4 Effaith net ar y gyllideb

Ar gyfer pob blwyddyn ac amrywiad mynegeo, caiff yr effaith gyllidebol net o Gyfraddau Treth Incwm Cymru ei chyfrifo fel gwahaniaeth rhwng refeniw treth incwm Cymru a'r Addasiad i'r Grant Bloc cyfatebol:

$$Effaith\ net = R_t^W - BGA_t$$

Mae'r mesur hwn yn cynrychioli effaith datganoli treth incwm ar gyllideb Llywodraeth Cymru o dan y mecanwaith mynegeo penodedig. Mae gwerthoedd positif yn dangos bod refeniw Cymru'n fwy na'r AGB, tra bod gwerthoedd negatif yn dangos y gwrthwyneb.

⁵ Gweler <https://ifs.org.uk/publications/wales-dont-always-see-scotland-adjusting-welsh-block-grant-after-tax-devolution>

A7. Atodiad Methodolegol 7: Ymateb ymddygiadol a refeniw ôl-ymddygiadol amcangyfrifedig

Ymgorfforir ymatebion ymddygiadol yn y model i adlewyrchu sut mae unigolion yn addasu eu cyflenwad llafur a'u hincwm trethadwy mewn ymateb i newidiadau mewn polisi treth incwm. Caiff effeithiau ymddygiadol eu cymhwyso mewn dau gam, fel y crynhoir yn Nhabl A7.1.

Tabl A7.1: Ymatebion ymddygiadol i dreth incwm

	Beth yw e?	Effaith ar refeniw treth
Ffin rhyngdorri	Mae unigolion yn addasu maint eu cyflog mewn ymateb i newidiadau yn y gyfradd dreth effeithiol ymylol, sydd yn mesur y dreth a delir ar y bunt nesaf a enillir. Gall addasiadau gynnwys newidiadau yn yr oriau a weithir neu gyfraniadau at gynlluniau aberthu cyflog.	Fel arfer, mae'n lleihau'r cynnydd refeniw o godiadau treth (wrth i unigolion ennill llai) ac yn lleihau crebachiad refeniw o doriadau treth (wrth i unigolion ennill mwy).
Ffin estynnol	Mae unigolion yn dewis a ddylent ymuno neu adael y farchnad lafur mewn ymateb i newidiadau yn y gyfradd dreth effeithiol gyfartalog, sydd yn mesur cyfran y cyfanswm incwm a delir mewn treth. Gall addasiadau gynnwys ymddeol yn gynharach, gadael cyflogaeth, neu symud i ranbarth arall gyda pholisi treth gwahanol.	Fel arfer, mae'n lleihau'r cynnydd refeniw o godiadau treth (gan fod llai o unigolion yn cymryd rhan yn y farchnad lafur) ac yn lleihau crebachiad refeniw o doriadau treth (wrth i fwy o unigolion ddechrau gweithio).

A7.1 Ymateb ymddygiadol ar y ffin rhyngdorri

Ar y ffin rhyngdorri, rhagdybir bod unigolion yn newid lefel eu gwaith mewn ymateb i newidiadau yn y cyfradd cadw ymylol — hynny yw, y gyfran o'r bunt ychwanegol o incwm sy'n cael ei chadw ar ôl treth (1 minws y gyfradd dreth ymylol).

Rhagdybir ymhellach bod yr ymatebion hyn yn amrywio yn ôl lefel incwm. Neilltuir elastigeddau incwm trethadwy, fel y dangosir yn Nhabl A7.2, i wahanol grwpiau incwm. Mae'r elastigeddau i gyd yn bositif, gan fod cynnydd yn y gyfradd cadw ymylol yn arwain unigolion i gynyddu eu cyflenwad llafur a'u hincwm trethadwy.

Yn gyffredinol, mae elastigeddau'n cynyddu gyda lefel incwm, gan fod unigolion ar incwm uwch yn fwy ymatebol i newidiadau yn eu cyfradd dreth ymylol effeithiol. Mae hyn am fod gwerth ariannol y newid canrannol yn y cyfradd cadw ymylol yn fwy. Yn ogystal, mae eu ffynonellau incwm yn fwy hyblyg, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy gwerth chweil i addasu ymddygiad. Mae ganddynt hefyd well mynediad at gynllunio treth, ac yn gallu newid penderfyniadau gwaith, buddsoddi neu symud incwm yn fwy rhwydd nag unigolion ar incwm is.

Tabl A7.2: Elastigeddau incwm trethadwy ar gyfer ymateb ffin rhyngdorri

Incwm	Elastigeddau incwm trethadwy
£0 hyd at y trothwy cyfradd safonol	0.015
Trothwy cyfradd safonol hyd at £80,000	0.1
£80,000 hyd at £150,000	0.2
£150,000 hyd at £300,000	0.35
£300,000 hyd at £500,000	0.55
Uwchlaw £500,000	0.75

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Sefydliad Fraser of Allander.

A7.1.1 Cyfrifo'r addasiad ar y ffin rhyngdorri

Rydym yn defnyddio'r canran o newid yn y gyfradd cadw ymylol ynghyd ag elastigedd i gyfrifo'r newid yn yr incwm trethadwy. Cyfrifir hyn fel:

$$\% \text{ Newid Incwm Trethadwy} = \% \text{ Newid y gyfradd cadw ymylol} \times \text{Elastigedd}$$

Defnyddir y canran o newid yn yr incwm trethadwy wedyn i gyfrifo'r incwm trethadwy newydd ar ôl y cam ymddygiadol cyntaf. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\begin{aligned} \text{Incwm trethadwy addasedig (ymddygiad 1)} \\ = (1 + \% \text{ Newid yn Incwm Trethadwy}) \times \text{incwm trethadwy NCND} \end{aligned}$$

Cyfrifir y rhwymedigaeth dreth gan ddefnyddio'r incwm trethadwy addasedig yn hytrach na'r incwm trethadwy NCND blaenorol.

Fel arfer, mae'r addasiad ymddygiadol yn lleihau'r cynnydd refeniw o godiadau treth (gan fod unigolion yn ennill llai) neu'n lleihau crebachiad refeniw o doriadau treth (gan fod unigolion yn ennill mwy), o'i gymharu â'r amcangyfrifon statig sy'n rhagdybio dim ymateb ymddygiadol.

A7.2 Ymateb ymddygiadol ar y ffin estynnol

Mae'r ffin estynnol yn adlewyrchu y newidiadau yn y penderfyniad i weithio o gwbl. Mae'r ail gam hwn yn ymgorffori effeithiau'r ffin rhyngdorri, gan fod ymatebion ar y ffin estynnol yn cael eu cyfrifo ar sail rhwymedigaethau treth wedi cam ymddygiad 1 uchod.

A7.2.1 Cyfrifo'r addasiad ar y ffin estynnol

Ar ôl yr addasiad ar y ffin rhyngdorri, caiff trethdalwyr eu hailddosbarthu i fandiau treth yn ôl eu hincwm trethadwy a'u rhwymedigaeth wedi'u diweddaru.

Yna cyfrifir rhwymedigaeth dreth pob trethdalwr o dan eu cyfradd ymylol. Dyma sail y gyfradd dreth effeithiol gyfartalog — sef y swm o dreth a delir cyn cyrraedd y band treth ymylol presennol. Hynny yw, cyfanswm y dreth sy'n daladwy yn yr holl fandiau o dan fand cyfradd ymylol y trethdalwr.

Nesaf, cyfrifir y newid yn y rhwymedigaeth dreth yn dilyn y cam ymddygiadol cyntaf fel a ganlyn:

Newid rhwymedigaeth (ymddygiad 1)

$$= \text{rhwymedigaethau ymddygiad 1 o dan y gyfradd ymylol} \\ - \text{rhwymedigaethau llinell sylfaen o dan y gyfradd ymylol}$$

Mae hyn yn dangos faint y mae'r baich treth is-ymylol wedi newid — h.y., y newid yn y baich cyfradd dreth effeithiol gyfartalog rhwng y llinell sylfaen ac ymddygiad 1.

Rydym yn rhagdybio y bydd unigolion hefyd yn ymateb yn wahanol ar wahanol lefelau incwm ar y ffin estynnol. Rydym yn cymhwyso set ar wahân o elastigeddau incwm sy'n dal pa mor sensitif yw unigolion i newidiadau yn eu cyfradd dreth effeithiol gyfartalog, yn seiliedig ar eu lefel incwm. Mae Tabl A7.3 isod yn cyflwyno'r elastigeddau incwm ar gyfer ymatebion ymddygiadol ar y ffin estynnol.

Tabl A7.3: Elastigeddau incwm trethadwy ar gyfer ymateb ffin estynnol

Incwm	Elastigeddau incwm trethadwy
£0 hyd at y trothwy cyfradd safonol	0
Trothwy cyfradd safonol hyd at £150,000	-0.06
Uwchlaw £150,000	-0.25

Ffynhonnell: Comisiwn Cyllidol yr Alban.

Mae'r elastigeddau hyn yn negyddol, gan adlewyrchu'r ffaith bod cyfraddau treth uwch yn lleihau'r wobwr ariannol o fynd i mewn i waith. Mae unigolion ar incwm uchel yn dangos ymateboldeb mwy oherwydd y newidiadau treth absoliwt mwy y maent yn eu hwynebu a'u gallu mwy hyblyg i addasu cyflenwad llafur neu gofnodi incwm. Nid oes unrhyw ymateb gan unigolion sy'n ennill llai na throthwy'r band cyfradd sylfaenol, gan nad ydynt yn talu treth, felly nid yw newidiadau yn yr cyfradd dreth effeithiol gyfartalog yn effeithio ar eu tâl net.

Cymhwysir yr elastigeddau hyn i gyfrifo'r newid ar y ffin estynnol yn y rhwymedigaeth dreth. Caiff y newid yn y rhwymedigaeth ar y ffin rhyngdorri ei luosi gan yr elastigedd (negyddol), fel y nodir yn y fformiwla isod:

Newid rhwymedigaeth (ymddygiad 2)

$$= \text{Newid rhwymedigaeth (ymddygiad 1)} \times \text{Elastigedd}$$

Trosir y newid yn y rhwymedigaeth dreth yn newid yn yr incwm trethadwy. Cyfrifir hyn drwy rannu'r newid mewn rhwymedigaeth ar y ffin estynnol â'r cyfradd dreth ymylol, er mwyn pennu faint mae incwm angen newid i gynhyrchu'r newid hwnnw yn y rhwymedigaeth:

$$\text{Newid incwm (ymddygiad 2)} = \frac{\text{Newid rhwymedigaeth (ymddygiad 2)}}{\text{Cyfradd dreth ymylol}}$$

Yn olaf, rydym yn cyfrifo'r incwm trethadwy ôl-ymddygiadol drwy addasu'r incwm trethadwy ar ôl ymddygiad 1 gan y newid mewn incwm ar ôl ymddygiad 2. Mae hyn yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

Incwm trethadwy ôlymddygiadol

= Incwm trethadwy addasedig (ymddygiad 1)

+ Newid incwm (ymddygiad 2)

Mae'r broses ddwy gam hon yn adlewyrchu yr ymatebion o fewn cyflogaeth (oriau gwaith, ymdrech, symud incwm) a'r ymatebion cymryd rhan (ymuno neu adael y farchnad lafur), gan ein galluogi i amcangyfrif refeniw ôl-ymddygiadol.



UNIVERSITY of STRATHCLYDE
**FRASER OF ALLANDER
INSTITUTE**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY